

Absenoldebau disgyblion

Tachwedd 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddPlant

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Absenoldebau disgyblion

Tachwedd 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPlant

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



James Evans AS
Ceidwadwyr Cymreig



Laura Anne Jones AS
Ceidwadwyr Cymreig



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Buffy Williams AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cefndir	6
2. Beth oedd adolygiad 2022 i absenoldeb disgyblion?	9
3. Pa mor fawr yw'r mater?	12
4. Pam y mae disgyblion yn absennol?	15
Iechyd meddwl	16
Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol	18
Rheoli absenoldeb a'r pandemig	21
Argyfwng costau byw / cost y diwrnod ysgol	23
Ein barn ni	25
5. A yw grwpiau penodol o ddysgwyr yn fwy tebygol o fod yn absennol?	28
Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol	28
Effaith tlodi	30
Gofalwyr ifanc	32
Grwpiau eraill	33
Plant a phobl ifanc o gefndir lleiafrif ethnig	33
Plant a phobl ifanc o gefndiroedd sipsw / roma / teithwyr	33
Plant a phobl ifanc hŷn	33
Plant a phobl ifanc â chyflyrau meddygol	34
Defnyddio data i nodi tueddiadau a phatrymau	35
Ein barn ni	38
6. Beth yw effaith absenoldeb?	39
Yr effaith ar ddysgu a chyrhaeddiad	39
Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant	42
Ein barn ni	43

7. Beth fu effaith absenoldeb disgyblion ar addysg ddewisol yn y cartref?	45
Ein barn ni	50
8. Pa mor effeithiol yw polisiâu presennol Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael ag absenoldeb yn yr ysgol?	52
Diwygiadau addysg presennol	52
Diffiniad Llywodraeth Cymru o absenoldeb cyson	55
Hysbysiadau Cosb Benodedig	56
Dysgu cyfunol a hyblyg	59
Capasiti staffio	63
Cyllid Llywodraeth Cymru.....	66
Ein barn ni	71
Diwygiadau addysg presennol	71
Y diffiniad o absenoldeb cyson	71
Hysbysiadau cosb benodedig.....	72
Dysgu cyfunol	72
Capasiti staffio a chyllid Llywodraeth Cymru	72
9. Pa mor effeithiol yw arferion a pholisiâu presennol awdurdodau lleol ac ysgolion?	74
Cymorth i deuluoedd	76
Rôl ysgolion bro.....	81
Ein barn ni	83
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.....	85
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	87
Gwybodaeth ychwanegol	90

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch genedlaethol i bwysleisio effeithiau cadarnhaol presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Ochr yn ochr â hyn, dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth i awdurdodau lleol ac ysgolion gynnal ymgyrchoedd cadarnhaol lleol, tebyg ynghylch presenoldeb yn yr ysgol. Dylai'r ymgyrchoedd gwahanol atgyfnerthu negeseuon o'r ymgyrchoedd eraill..... Tudalen 26

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth frys i sut y mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar allu disgyblion i fynd i'r ysgol. Dylai hyn gael ei wneud o fewn dau fis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn a bod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r adolygiad gael ei ategu gan gynllun gweithredu sy'n nodi pa waith fydd yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad..... Tudalen 26

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mai anghenion unigol a phenodol plant a phobl ifanc sy'n sail i benderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu'r dull hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid i sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc fynediad at opsiynau trafnidiaeth priodol i gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Dylai'r adolygiad presennol edrych ar flaenoriaethu datrysiad dysgwr yn gyntaf; a dylai fod yn radical wrth chwilio am ddatrysiadau arloesol..... Tudalen 26

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith, gan edrych ar y defnydd o ddata presenoldeb i gefnogi ymyriadau cynnar. Wrth ddarparu'r manylion hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen amlinellol ar gyfer gwneud y gwaith hwn. Tudalen 38

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro deilliannau addysgol a'r cysylltiadau â chyfraddau presenoldeb, ac yn cyhoeddi'r data hyn yn rheolaidd..... Tudalen 44

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data manylach am y rhesymau dros ddadgofrestru a dychwelyd i ysgolion ar ôl dadgofrestru, ochr yn ochr â data ar y cymorth a ddarperir i deuluoedd. Dylai'r data hyn gael eu dadgyfuno gan awdurdod lleol a dylent nodi demograffigau allweddol, megis oedran, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, a chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Tudalen 51

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hadolygiad presennol o bolisi a chanllawiau ar bresenoldeb ysgol, yn cytuno ac yn gosod trothwyon cyson ar gyfer ymyrryd sy'n gymwys ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Tudalen 71

1. Cefndir

Cododd y pwnc hwn o waith craffu blynyddol gydag Estyn. Roeddem am ymchwilio ymhellach oherwydd yr effaith sylweddol y gall absenoldeb ei chael ar ddysgu, cyrhaeddiad ac iechyd meddwl. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol.

1. Yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol ar Estyn ar 13 Rhagfyr 2021, codwyd y mater absenoldeb disgyblion. O ganlyniad, gwnaethom ysgrifennu at yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i ofyn am y data sydd ganddynt ar absenoldeb disgyblion, a sut y maent yn gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb disgyblion nad ydynt wedi dychwelyd i'r ysgol yn rheolaidd ar ôl i'r ysgolion fod ar gau yn gyffredinol.¹ Cawsom ymatebion gan 15 awdurdod lleol, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 10 Mawrth 2022.²

2. Yn ein cyfarfod ar 31 Mawrth 2022, penderfynwyd cynnal ymchwiliad byr i absenoldeb disgyblion. Wrth wneud y penderfyniad i gynnal yr ymchwiliad hwn, gwnaethom ei ystyried yn erbyn ein **cynllun strategol** a'n blaenoriaethau a nodwyd. Gwnaethom gytuno ei fod yn ymdrin â nifer o'n hamcanion:

- Rhoi hawliau plant wrth galon ein gwaith – mae Erthygl 19 o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** ("CCUHP") yn datgan bod gan blant hawl i gael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae Erthygl 28 yn datgan bod gan blant hawl i addysg. Mae Erthygl 29 yn dweud bod yn rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf.
- Gwneud gwaith craffu amserol ac adeiladol – Roedd y data wythnosol ar niferoedd a chyfraddau presenoldeb, a oedd ar 31 Mawrth yn dangos bod 90.0 y cant o ddisgyblion yn bresennol ar gyfartaledd, a bod 1.6 y cant o ddisgyblion yn absennol oherwydd COVID-19.³ Yn ogystal, roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ("y Gweinidog") eisoes wedi cyhoeddi adolygiad o batrymau presenoldeb.⁴

¹ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at awdurdodau lleol Cymru, 17 Rhagfyr 2021

² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, papurau i'w nodi 1-16, 10 Mawrth 2022

³ Llywodraeth Cymru, Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 6 Medi 2021 i 11 Mawrth 2021

⁴ Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Ysgolion a Cholegau, 14 Hydref 2021

- Ystyried yr effaith ar lesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc – Gall absenoldeb o’r ysgol ymwneud â phroblemau gorbryder ac iechyd meddwl, ond gall absenoldeb hefyd leihau mynediad plant a phobl ifanc at yr ystod o gymorth y gellir ei ddarparu mewn lleoliadau addysgol.
- Canolbwyntio ar effaith negyddol anfantais ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc, ac anghydraddoldebau o ganlyniad i hynny - mae disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod yn absennol o’r ysgol a gall absenoldeb gael effaith ar ddeilliannau addysgol.

3. Er mwyn llywio ein gwaith cwmpasu, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ym mis Ebrill 2022 yn gofyn am ddiweddariad ar y gwaith yr oedd wedi’i gyhoeddi ym mis Hydref 2021.⁵ Atebodd y Gweinidog, gan rannu’r adroddiad.⁶ Gwnaethom ystyried yr adroddiad a’i ganfyddiadau wrth benderfynu ar y cylch gorchwyl a’n dull cyffredinol.

4. Ar 4 Mai 2022, gwnaethom gytuno ar ein cwmpas a’n dull ar gyfer yr ymchwiliad. Dyma ein cylch gorchwyl:

Bydd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar absenoldeb disgyblion sydd wedi’u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried y canlynol yn benodol:

- Lefelau absenoldebau cyson a’r rhesymau dros hynny
- P’un a yw absenoldebau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid yn uwch na chyn pandemig COVID 19, ac os felly, pam
- P’un a yw absenoldebau cyson yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau penodol o ddisgyblion (y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, bechgyn a merched, grwpiau oedran penodol, ethnigrwydd) ac os felly, y rhesymau pam
- Risgiau a chanlyniadau tymor byr a thymor hwy i ddysgwyr, er enghraifft o ran iechyd meddwl a llesiant
- Yr effaith ar ddysgu a chyrraeddian disgyblion
- A yw absenoldebau wedi arwain at lefel uwch o ddadgofrestru disgyblion ac unrhyw orgyffwrdd ag addysg ddewisol yn y cartref

⁵ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 7 Ebrill 2022

⁶ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Ebrill 2022

- Effeithiolrwydd polisiâu a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru
- Lefel ac effeithlonrwydd camau gweithredu a chefnogaeth gan ysgolion, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru
- Pa mor effeithiol y caiff rhieni gymorth a'u cynnwys

5. Lansiodd **ymgyngoriad ysgrifenedig** gennym ar 9 Mai, a ddaeth i ben ar 20 Mehefin 2022. Cawsom 59 o ymatebion, a 26 ohonynt gan unigolion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion unigol hyn gan rieni yn rhannu profiadau eu teulu eu hunain. Rydym yn arbennig o werthfawrogol o'r ymatebion hyn, a oedd yn aml yn rhannu profiadau eithaf anodd neu heriol. Gan mai gwrando ar brofiad bywyd plant a phobl ifanc yw un o'n blaenoriaethau strategol, roedd clywed yn uniongyrchol gan y rhai y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt yn arbennig o bwerus. Mae rhagor o fanylion am y dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld yn Atodiad B.

6. Yn ogystal â'r alwad ysgrifenedig am dystiolaeth, cynhaliodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion bum cyfarfod grŵp ffocws a 7 cyfweiliad rhwng 24 Mai a 9 Mehefin ag amrywiaeth o rieni, pobl ifanc a rhai staff mewn rhannau gwahanol o Gymru. Cafwyd sylwadau drwy e-bost hefyd gan un unigolyn ac un grŵp.⁷ Eto, rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a roddodd o'i amser i gyfrannu i'r ymchwiliad hwn.

7. Clywsom dystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod tri chyfarfod ym mis Mehefin 2022, gan orffen gyda'r Gweinidog. Cynhaliwyd dwy drafodaeth bord gron gyda Swyddogion Lles Addysg i glywed yn uniongyrchol gan staff rheng flaen. Cawsom hefyd sesiwn frifio breifat gyda Meilyr Rowlands, sef awdur yr adolygiad a gafodd ei gomisiynu gan y Gweinidog. Mae manylion llawn am y dystiolaeth lafar ar gael yn Atodiad A.

8. Ar ôl ein sesiwn dystiolaeth lafar gydag Estyn, rhoddodd ragor o dystiolaeth yn amlinellu rhai arferion da o bob rhan o Gymru. Cyhoeddwyd hyn ar ein **gwefan**.

9. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd i'n ymchwiliad. Rydym yn dibynnu ar dystiolaeth o ansawdd uchel i lywio ein gwaith, ein trafodaethau a'n casgliadau. Rydym yn gwybod y gall gymryd llawer o amser i gyflwyno dystiolaeth a'i bod weithiau'n anodd i bobl rannu eu profiadau personol eu hunain, felly rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd i'r gwaith hwn ym mha fformat bynnag.

⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldeb disgyblion, Canfyddiadau gwaith ymgysylltu, Mehefin 2022

2. Beth oedd adolygiad 2022 i absenoldeb disgyblion?

Mae pryderon wedi bod ers tro am absenoldeb disgyblion. Cyn y pandemig, roedd amrywiaeth o waith i fynd i'r afael â'r mater. Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad i edrych ar y mater yng nghyd-destun y pandemig, a wnaeth nifer o argymhellion.

10. Yn 2006, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb. Un o'r deilliannau allweddol oedd **Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan**. Mae'r Fframwaith yn darparu safonau a chanllawiau i ymarferwyr i sicrhau mwy o gysondeb o ran ymarfer ledled Cymru. Y bwriad yw ei ddefnyddio fel pecyn cymorth ymarferol i staff sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg.

11. Yn 2019, datganodd y Gweinidog Addysg ar y pryd fod Llywodraeth Cymru "wedi dechrau cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r canllawiau ar bresenoldeb gorfodol mewn ysgolion yng Nghymru." Yn y llythyr hwn, nododd y Gweinidog ar y pryd fod rhai o'r canllawiau yn "hen ac angen eu diweddaru".⁸

12. Comisiynodd y Gweinidog adolygiad o batrymau presenoldeb i lywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol. Gofynnwyd i Meilyr Rowlands, cyn-Brif Arolygydd Ysgolion EM, gynnal yr adolygiad. Cafodd ei adroddiad, "Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion" ("yr adolygiad") ei gyhoeddi ar 3 Mai 2022.⁹

13. Amlinellodd Meilyr Rowlands gwmpas y gwaith hwn:

"... arolygu tueddiadau presenoldeb diweddar yng ngoleuni'r pandemig, i gynnig dealltwriaeth o'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb, ac awgrymu unrhyw fesurau neu ymyriadau ychwanegol a allai helpu cefnogi ac

⁸ Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 23 Rhagfyr 2019

⁹ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

*ailgysylltu dysgwyr â'u haddysg, yn enwedig y rhai y cynyddodd eu habsenoldeb yn ystod y cyfnod hwn.*¹⁰

14. Datganodd fod yr adolygiad yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod "amrywiaeth o resymau neu achosion sylfaenol dros absenoldeb dysgwyr, gan gynnwys achosion cymhleth a lluosog" a bod "presenoldeb dysgwyr yn gorwedd ar gontinwrm eang ...". Mae'r adolygiad yn gwneud 18 o argymhellion ar draws nifer o feysydd, sy'n cynnwys:

- Ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion cymunedol;
- Cefnogi dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4;
- Dysgu cyfunol;
- Llwyth gwaith a staffio;
- Cyfathrebu a rhannu arfer orau;
- Data ac ymchwil.¹¹

15. Ar ôl cyhoeddi'r adolygiad, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 3 Mai 2022 yn amlinellu'r camau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu gweithredu, a'r camau sydd eisoes wedi'u cymryd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 'Cynnydd' yn y negeseuon cenedlaethol i deuluoedd er mwyn ymdrin â phryderon sydd ganddynt a phwysleisio'r pwysigrwydd bod plant yn mynd i'r ysgol.
- £3.84 miliwn o gyllid i swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (a gyhoeddwyd yn flaenorol);
- Ailgyflwyno hysbysiadau cosb benodedig pan fetho popeth arall;
- Diweddarau fframwaith presenoldeb Cymru gyfan ac adolygu diffiniad absenoldeb cyson.
- £1.28 miliwn o gyllid ar gyfer darparu cymorth pontio wedi'i dargedu gsy'n canolbwyntio ar unigolion i ddysgwyr blwyddyn 11 (a gyhoeddwyd yn flaenorol);

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

¹¹ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

- £8.5 miliwn o gyllid pontio pwrpasol i golegau a chweched dosbarth ysgolion i gefnogi pobl ifanc sy'n pontio i'r camau nesaf mewn addysg neu yrfa;
- Estyn i gasglu data ar bresenoldeb disgyblion, ac, fel rhan o'i fframwaith arolygu peilot, mae'n ystyried darpariaeth ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer monitro a gwella presenoldeb;
- Gofyn i'r holl ysgolion gyhoeddi eu polisiau presenoldeb.

Dywedodd hefyd y byddai'r cynigion ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref sy'n cael eu datblygu yn helpu i sicrhau bod y dysgwyr hynny'n cael mynediad at addysg effeithlon ac addas.¹²

16. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr adolygiad wedi canfod y canlynol:

*"... yn gyffredinol bod yr ystod o ymyriadau polisi yn y man iawn ar y cyfan. Roedd ambell gwestiwn penodol ynglŷn â persistent absence, er enghraifft. Rydyn ni, wrth gwrs, yn edrych ar hynny. Ond, roedd y dirwedd polisi ar y cyfan yn darparu'r hyn roedd ei angen, a lle roedd angen y ffocws oedd sicrhau bod yr arfer da yn cael ei rannu a bod ysgolion yn cael eu cefnogi i allu gwneud y cysylltiadau hynny gyda theuluoedd."*¹³

17. Dywedodd ei fod yn gefnogol i'r rhan fwyaf o'r argymhellion, ond nododd ddau argymhelliad lle nad oedd wedi'i argyhoeddi am y ffordd arfaethedig o "fynd ati". Fodd bynnag, cefnogodd yr egwyddorion y tu ôl i'r ddau argymhelliad hyn. Un oedd cynnal adolygiad penodol o hysbysiadau cosb benodedig, yr oedd y Gweinidog yn teimlo bod angen edrych arnynt mewn ffordd "holistaidd", fel rhan o'r adolygiad o'r gyfres ehangach o bolisiau a chanllawiau. Y llall oedd yr argymhelliad i ystyried estyn y cynllun ar gyfer cyflogi ANG nad ydynt wedi sicrhau cyflogaeth barhaol. Er bod y cyllid hwn wedi'i estyn i dymor arall, sef trydydd tymor academaidd 2021/22, sy'n golygu bod y cyllid wedi bod ar gael am flwyddyn ysgol lawn, dywedodd nad oedd yn "gweld yr amgylchiadau hynny'n parhau i wneud hynny am flwyddyn arall."¹⁴

¹² Y Cyfarfod Llawn, 3 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 204 - 219

¹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 76-78

¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 67-69

3. Pa mor fawr yw'r mater?

Er nad oes modd cymharu'r data presenoldeb o'r cyfnod cyn y pandemig ac nawr yn uniongyrchol, mae tueddiadau eang yn dangos bod presenoldeb wedi gostwng a'i fod yn parhau i fod yn fater o bryder.

18. Fel y mae'r adolygiad yn nodi, mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi data presenoldeb ysgolion wedi newid yn ystod y pandemig. Gall hyn ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau pendant wrth gymharu'r data, er y gallwn godi rhai tueddiadau eang. Yn flaenorol, roedd data'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn, ac yn crynhoi blwyddyn academiaidd gyfan. Ers mis Medi 2020, mae data presenoldeb wedi'u casglu a'u cyhoeddi'n wythnosol, gyda llawer mwy o fanylion.

19. Mae'r adolygiad yn darparu rhai tablau defnyddiol sy'n dangos tuedd eang presenoldeb is na chyn y pandemig. Daw'r ddau dabl hyn o'r adolygiad:

Tabl 1: Absenoldebau cyn-COVID-19¹⁵

Absenoldebau 2018-2019	Uwchradd	Cynradd
Pob disgybl	6.2%	5.3%
Dim FSM	5.3%	4.7%
FSM	10.5%	7.9%
Datganiad AAA	7.8%	7.7%
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	10.3%	7.0%

Tabl 2: Presenoldeb yn hydref 2021¹⁶

Wythnos yn cychwyn	Cyfartaledd % o ddisgyblion oedd yn bresennol
06/09/2021	91.4
13/09/2021	88.5

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

Wythnos yn cychwyn	Cyfartaledd % o ddisgyblion oedd yn bresennol
20/09/2021	84.7
27/09/2021	85.3
04/10/2021	87.3
11/10/2021	87.8
18/10/2021	85.5
01/11/2021	89.3
08/11/2021	89.1
15/11/2021	88.2
22/11/2021	86.7
29/11/2021	86.0
06/12/2021	85.7
13/12/2021	80.6

20. Yn ôl Llywodraeth Cymru, dangosodd data ar gyfer gwanwyn 2022 fod:

*"... absenoldebau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID yn uwch na'r gyfradd absenoldeb gyffredinol cyn y pandemig. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaethau o ran y ffordd y caiff presenoldeb ei ddiffinio ar hyn o bryd, a'r ffordd y caiff data eu casglu a'u cyhoeddi o gymharu â'r hyn a wnaed cyn y pandemig, mae'r adroddiad yn cydnabod ei bod hi'n anodd gwneud cymariaethau cywir am gyfraddau presenoldeb."*¹⁷

21. Ar adeg ysgrifennu hyn (28 Hydref 2022), mae'r data diweddaraf yn dangos y tueddiadau a ganlyn:

"Roedd cyfartaledd o 90.8% o sesiynau hanner diwrnod wedi'u cofnodi yn bresennol ar gyfer disgyblion 5 i 15 oed yn ystod yr wythnos 17 i 21 Hydref 2022, i lawr o 90.9% yr wythnos flaenorol. Mae'r ffigwr dros yr wythnos 10 i 14 Hydref 2022 wedi'i ddiwygio i lawr o 91.0%. Mae'r data dros dro ar gyfer y pythefnos diwethaf."

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

Mae cyfartaledd presenoldeb dros y flwyddyn adacemaidd hyd yn hyn yn 91.4%.

Roedd cyfartaledd o 6.4% o sesiynau hanner diwrnod wedi'u cofnodi fel absenoldeb awdurdodedig ar gyfer disgyblion 5 i 15 oed yn ystod yr wythnos 17 i 21 Hydref 2022, dim newid o'r wythnos flaenorol.

Roedd cyfartaledd o 2.8% o sesiynau hanner diwrnod wedi'u cofnodi fel absenoldeb heb awdurdod ar gyfer disgyblion 5 i 15 oed yn ystod yr wythnos 17 i 21 Hydref 2022, i fyny o 2.7% yr wythnos flaenorol.

Ychydig o wahaniaeth sydd wedi bod hyd yma yn y gyfradd presenoldeb yn ôl rhyw ar gyfer y flwyddyn academiaidd, gyda 91.5% ar gyfer bechgyn a 91.3% ar gyfer merched.

Mae'r gyfradd presenoldeb yn ôl grŵp blwyddyn ar gyfer y flwyddyn academiaidd hyd yma wedi bod¹⁸ ar ei uchaf ym mlwyddyn 7 (93.6%) ac ar ei isaf ym mlwyddyn 11 (87.4%).

Mae'r gyfradd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academiaidd hyd yma wedi bod yn uwch ar gyfer disgyblion sydd ddim yn gymwys am PYD (93.1%) na disgyblion sydd yn gymwys am PYD (86.9%).

Y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb ar gyfer y flwyddyn academiaidd hyd yma yw salwch, gyda 48.8% o sesiynau wedi'u methu oherwydd y rheswm hyn."

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Ystadegau, Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 5 Medi i 21 Hydref 2022

4. Pam y mae disgyblion yn absennol?

Mae ystod eang o ffactorau cymhleth, yn aml yn gysylltiedig, sy'n cyfrannu i absenoldeb parhaus. Yn aml bydd ystod o ffactorau'n cyfrannu i absenoldeb disgybl. Mae rhai o'r ffactorau'n rhagflaenu'r pandemig, ond mae'r pandemig hefyd wedi cyflwyno ffactorau newydd.

22. Mae'r adolygiad yn amlinellu'r rhain fel y rhesymau dros absenoldeb a oedd yn bodoli eisoes ac a waethygyd gan COVID-19:

- Tlodi, anfantais a dysgwyr cymwys am brydau ysgol am ddim;
- Anghenion dysgu arbennig ac ychwanegol;
- Materion diwylliannol;
- Dylanwad rhieni a theuluoedd ag anghenion cymhleth a lluosog
- Gorbryder, iechyd meddwl a lles a materion ymddieithrio.

Mae hefyd yn nodi'r rhesymau newydd a ganlyn sy'n ymwneud â COVID-19 dros absenoldeb:

- COVID-19 fel salwch, hunanyngysu ac absenoldeb dan gyfarwyddyd ysgol;
- Gorbryder, iechyd meddwl a materion lles;
 - yn gysylltiedig i bryderon iechyd;
 - yn gysylltiedig i bryderon addysg
- Ymddieithrio ac agweddau mwy hamddenol at ddysgu a phresenoldeb.¹⁹

23. Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn gan y dystiolaeth a gasglwyd gennym. Rydym wedi canolbwyntio ar bedwar maes allweddol yn yr adroddiad hwn.

¹⁹ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

Iechyd meddwl

24. Roedd yn amlwg bod materion iechyd meddwl dysgwyr, sef materion a oedd yn bodoli eisoes a rhai newidd a waethygydd gan effaith y pandemig, yn ffactor allweddol wrth sbarduno absenoldeb disgyblion. Clywsom hyn gan randdeiliaid a theuluoedd.

25. Soniodd un rhiant am effaith y pandemig ar lesiant meddyliol a chorfforol ei blentyn:

*"Covid completely ruined her. Locked in, she couldn't continue with her sports ... She became depressed and self harmed. She could not face school. She did not attend ... Loss of peers through lack of contact. Loss of muscle tone and fitness because of loss of sports. Made a major impact."*²⁰

26. At hynny, tynnodd Barnardo's Cymru sylw bod materion iechyd meddwl yn ymwneud â'r pandemig wedi arwain at ddiffyg presenoldeb:

*"Dad had been diagnosed with cancer during the pandemic and as a result the family had shielded for some time. During this time the young person had developed a phobia of germs and of bringing home Covid to her poorly Dad, which led to suicidal thoughts and self-harm. These mental health issues led to it becoming increasingly difficult for the young person to leave home at all, let alone attend school."*²¹

27. Roedd effaith y pandemig ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn thema amlwg. Dywedodd Plant yng Nghymru fod rhai plant a phobl ifanc wedi cael profiad o ystod o heriau emosiynol, iechyd a seicolegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r pandemig a'r cyfyngiadau a osodwyd.²² Dywedodd Estyn fod y pandemig wedi effeithio ar lesiant emosiynol ac iechyd meddwl nifer fach o ddisgyblion yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sy'n cael trafferth dychwelyd i drefn ysgol neu sydd â lefelau uchel o orbryder. Fel y cyfryw, dywedodd na chofnodwyd absenoldeb o'r fath fel salwch oherwydd Covid-19 ac y gallai helpu i esbonio pam y mae cyfraddau absenoldeb yn uwch na chyn y pandemig.²³

28. Adroddodd NASUWT Cymru ganfyddiadau Arolwg y Cwestiwn Mawr a dywedodd fod 90 y cant o'r athrawon a ymatebodd yn teimlo bod cyfraddau problemau emosiynol, personol neu gymdeithasol niweidiol ymhlith y disgyblion roeddent yn eu haddysgu wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf a dywedodd 97 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn addysgu disgyblion â heriau

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA15, Unigolyn

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA33, Barnardo's Cymru

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

iechyd meddwl.²⁴ Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith fod ei aelodau'n adrodd mwy o orbryder o ganlyniad i'r pandemig, yn enwedig ymhlith y rhai ag anhwylderau gorbryder oedd yn bodoli eisoes megis mudandod dethol y mae'n dweud ei fod yn cael effaith sylweddol ar bresenoldeb.²⁵

29. Clywsom hefyd am effaith iechyd meddwl arholiadau ac asesiadau. Mae'r pryder hwn yn rhagflaenu'r pandemig oherwydd natur arholiadau ac asesiadau pan fo llawer yn y fantol yn aml. Ond mae wedi'i waethygu gan y pandemig, yn ôl Cymwysterau Cymru, a ddywedodd fod yr amhariad ar ddysgu pobl ifanc, ar y cyd â newidiadau i asesiadau ac ansicrwydd parhaus yn cael effaith. Ond dywedodd hefyd fod "rhai dysgwyr yn aml yn mynegi barn gadarnhaol ar asesu ac arholiadau gan eu bod yn cael eu hystyried yn darparu mesur cadarn a dibynadwy o gyrhaeddiad, gan leihau rhagfarn – gan ddarparu chwarae teg". Mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal yr ymgyrch "Lefel Nesa/Power Up" er mwyn helpu i leddfu rhai o'r pryderon hyn, yn ogystal â helpu i gefnogi presenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr.²⁶

30. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod y berthynas rhwng pwysau arholiadau a phresenoldeb yn arbennig o ddifrifol i'r rhai ym Mlwyddyn 11. Mae ei swyddfa wedi cael adborth am straen arholiadau. Ar ben hynny, tynnodd sylw at yr effaith ehangach ar hunan-barch a chymhelliad pan fydd dysgwyr, "ac eraill, yn barnu eu bod yn methu". Yn benodol, effaith "negyddol" derbyn graddau TGAU dangosol is a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar eu hopsiynau. Nododd fel a ganlyn:

"... cynnig cul o ran cymwysterau, lle nad yw niferoedd sylweddol o bobl ifanc yn cael llwyddiant mawr, yn sicr yn leihau cymhelliad pobl ifanc, a gallai gyfrannu at y gyfradd absenoldeb gynyddol wrth i bobl ifanc symud at asesiadau crynodol. ... bydd rhai pobl ifanc, ar ôl colli cymhelliad yn eu dysgu rhwng 14 ac 16 oed, hefyd yn datgofrestru o'r ysgol, neu'n gwrthod mynd i'r ysgol, cyn diwedd cyfnod oed ysgol gorfodol. Ni fydd llawer o'r bobl ifanc hyn a gefnogir gan fy ngwasanaeth gwaith achosion erioed wedi cael cynnig llwybr cymwysterau arall ar gyfer TGAU.

... Mae'n bwysig nid yn unig bod angen datblygu'r cymwysterau hyn, ond hefyd bod angen sicrhau eu bod ar gael i blant yn yr ysgol cyn iddyn nhw golli diddordeb. Yn hanesyddol, roedd yr opsiynau ar lwybrau 14-19 yn cynnig llwybrau cymhwyso oedd yn werthfawr i lawer o bobl ifanc. Dylid

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA62, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA54, Cymwysterau Cymru

darparu ... cwrs astudio ystyrlon, sy'n rhoi boddhad, y mae modd cael mynediad iddo a chyflawni'n dda ynddo, i bob person ifanc yn 14 oed."²⁷

31. Gwnaeth yr Undeb Addysg Cenedlaethol ("NEU") ein hatgoffa nad yw'r garfan hon o fyfyrwyr wedi arfer â sefyll arholiadau, a'u bod hefyd yn ymwybodol o'r dylanwad y mae'r algorithm annheg yn ei gael ar yr arholiadau. Yn ychwanegu at y pwysau hyn y mae'r cyhoeddiadau y bydd myfyrwyr yn cael graddau is na'r garfan y llynedd – gan ddadlennu i'r myfyrwyr na fydd eu canlyniadau mor uchel â chanlyniadau carfan y llynedd, ni waeth pa mor galed y maent yn gweithio.²⁸

32. Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg hefyd fod dysgwyr bellach yn amau perthnasedd cwricwlwm ac asesu ar ôl Covid-19. Dywedodd mai'r rheswm dros hyn yw bod mathau eraill o asesu yn ystod y pandemig wedi dangos nad dyma'r unig ffordd o asesu ar ddiwedd CA4 mwyach. Yr hyn sy'n deillio o hynny yw bod dysgwyr yn llai cydnerth ond hefyd yn llai parod i dderbyn y naratif mai presenoldeb a llwyddiant arholiadau mewn ystod eang o bynciau gorfodol yw'r unig lwybr addas.²⁹

33. Gwnaeth UCAC y cysylltiad rhwng newidiadau mewn agweddau at ddysgu ac arholiadau, gan ddweud bod, am y tro cyntaf yn ddiweddar:

"... gydag arholiadau allanol, plant yn ffonio yn dweud, 'Dŷn ni ddim moyn ei wneud e wythnos hyn; fe wnawn ni fe wythnos nesaf.' Wel, na, dyw'r sefyllfa ddim yn caniatáu ichi wneud arholiad allanol wythnos nesaf. Felly, mae agwedd pobl tuag at addysg, dwi'n meddwl, wedi newid yn ystod y pandemig."³⁰

Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

34. Clywsom gan nifer o rieni unigol, a Lleisiau Rhieni yng Nghymru³¹ am effaith anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") heb ddiagnosis a/neu ddiffyg cymorth yn cael effaith ar bresenoldeb. Dywedodd un rhiant y canlynol wrthym:

"My son is autistic. He started becoming anxious about school when he had his SAT'S, this was further exacerbated by Covid, and now his school anxiety

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA60, Undeb Addysg Cenedlaethol

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 11

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA64, Lleisiau Rhieni yng Nghymru

is so severe, he's been out of school for a very long period. He hasn't been given an IDP, or had an assessment by the Educational Psychologist."³²

35. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru fod ganddi bryderon mawr am y lefelau uchel o ddiffyg presenoldeb ymhlith pobl ifanc awtistig.³³

36. Nododd Barnardo's Cymru enghreifftiau o bobl ifanc ag ADY yn cael eu cynghori i aros gartref nes bod lleoliad addas ar gael. Roedd yn gwybod am o leiaf un person ifanc oedd wedi bod allan o'r ysgol ers dau fis a hanner heb arwydd o leoliad. Dywedodd fod y dull hwn yn gorfodi rhai teuluoedd i ddarparu addysg yn y cartref, heb gael dewis priodol ai hyn oedd yr opsiwn iawn i'w plentyn.³⁴ Ystyriwn addysg yn y cartref yn fanylach ym Mhennod 7.

37. Dywedodd rhiant fod yr ysgol yn lle caled a digyfaddawd i'r rhai nad ydynt yn niwronodweddiadol, gan ychwanegu nad oes gan athrawon a staff ysgolion eraill ddigon o hyfforddiant i ddeall pa mor heriol yw hi a bod hyn yn achosi mwy o straen.³⁵ Dywedodd rhiant arall y byddai'r rhai sydd ar y sbectrwm awtistiaeth yn elwa ar ysgolion llai â mwy o fannau diogel dynodedig ac oedolion caredig, cefnogol.³⁶

38. Soniodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru am y pwysau ychwanegol y mae plant a phobl ifanc awtistig yn eu hwynebu, gan gynnwys:

- Cael trafferth gydag amgylchedd yr ysgol oherwydd y synau, arogleuon cryf neu oleuadau llachar;
- Gorbryder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol neu gael trafferth gwneud ffrindiau;
- Mynd i drafferth am fod yn anfwriadol anghwrtais neu amhriodol;
- Cael trafferth gydag amseroedd anstrwythuredig, megis egwyl ginio;
- Cael trafferth ymdopi â gofynion amserlen neu gwricwlwm ysgol;
- Cael trafferth pontio, megis newid ystafell ddosbarth neu ysgol;
- Cymryd pethau'n llythrennol neu gamddeall cyfarwyddiadau athro;
- Methu ymdopi â gwasanaeth gorlawn neu gludiant i'r ysgol;

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA21, Unigolyn

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA33, Barnardo's Cymru

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA22, Unigolyn

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA25, Unigolyn

- Gwaeledd neu chwalfa nerfol oherwydd eu bod wedi'u gorlethu.

Daw i'r casgliad y gall y gofynion ysgol hyn fynd yn annioddefol, gan arwain at absenoldeb neu wrthod mynd i'r ysgol. Mae'n derm y mae rhai'n teimlo ei fod yn annheg yn awgrymu bod dewis gan y plentyn neu'r person ifanc, pan allai fod yn barod i fynd i'r ysgol, ond yn methu goddef bod yno. Mae'n galw am ymyriad cynharach a chymorth wedi'i deilwra i ddisgyblion awtistig.³⁷

39. Clywsom dystiolaeth wahanol am effaith dysgu ar-lein ar ddysgwyr ADY. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru bod y dysgwyr hyn "efallai ... wedi dioddef oherwydd symud i ddysgu ar-lein a dibyniaeth ar dechnoleg i ddarparu cefnogaeth ac ymgysylltiad".³⁸ Dywedodd Lleisiau Rhieni yng Nghymru fod llai o ymgysylltiad â dysgu ar-lein i'r dysgwyr sy'n niwrowahanol.³⁹ Dywedodd Estyn wrthym am yr heriau penodol y mae'r dysgwyr hyn yn eu hwynebu, a oedd wedi arfer â chael cymorth mewn ystafell ddosbarth naill ai gan athro neu gynorthwyydd addysgu. Dywedodd, er y gwnaed gwaith i ganfod ffyrdd gwahanol ac arloesol yn aml o helpu'r dysgwyr hyn, eu bod yn aml yn cael trafferth ymgysylltu â dysgu ar-lein, o bell.⁴⁰

40. Dywedodd Lleisiau Rhieni yng Nghymru fod dysgwyr niwrowahanol yn aml yn blant prif ffrwd na nodwyd bod ganddynt wahaniaethau. Yn aml cânt eu galw'n ddysgwyr "canol coll" a'u bod, tan y pandemig, yn defnyddio eu deallusrwydd i ddod o hyd i strategaethau i ymdopi ac elwa ar y cymorth wyneb yn wyneb. Dywedodd y gosodwyd gofynion dysgu annibynnol digidol enfawr ar y dysgwyr hyn. Ar ben hynny, yn aml mae rhieni'r dysgwyr hyn hefyd yn niwrowahanol, a oedd yn golygu bod ymgysylltu â dysgu ar-lein wedi bod yn rhy anodd i'r teulu cyfan.⁴¹

41. Ar y llaw arall, clywsom fod dysgu ar-lein wedi bod yn brofiad buddiol i rai dysgwyr. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth fod rhai pobl ifanc awtistig wedi adrodd profiadau cadarnhaol o ddysgu ar-lein, gyda rhai'n rhagori ar ôl cael trafferth mewn ystafelloedd dosbarth traddodiadol. Galwodd i ddysgu cyfunol barhau i fod ar gael, gyda mwy o hyblygrwydd ar bresenoldeb a all gefnogi presenoldeb parhaus yn yr ysgol.⁴² Rydym yn edrych ar ddysgu cyfunol yn fanylach ym Mhennod 8.

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA55, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA64, Lleisiau Rhieni yng Nghymru

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA64, Lleisiau Rhieni yng Nghymru

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

Rheoli absenoldeb a'r pandemig

42. Yn amlwg, mae absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ffactor nad oedd yn bodoli cyn y pandemig. Dywedodd Estyn fod cydberthynas eang rhwng absenoldebau ysgol yn 2021/22 a chyfradd achosion COVID-19 yn yr awdurdod lleol. Er y gwnaeth ddangos bod rhywfaint o amrywiad rhwng awdurdodau lleol, gyda rhai'n cael cyfradd absenoldeb hynod is (h.y. presenoldeb uwch) na'r disgwyl o gofio'r gyfradd achosion a bod rhai'n cael cyfradd absenoldeb hynod uwch na'r disgwyl.⁴³ Dywedodd NASUWT Cymru ei bod yn amlwg bod absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn parhau i fod yn broblem.⁴⁴

43. Thema amlwg a chyson iawn o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym oedd bod y pandemig a chau ysgolion wedi arwain at agwedd fwy derbyngar tuag at bresenoldeb ysgol is. Codwyd hwn gan nifer o randdeiliaid, gan gynnwys:

- Comisiynydd Plant Cymru;⁴⁵
- Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith;⁴⁶
- UCAC;⁴⁷
- NASUWT Cymru;⁴⁸
- Cyngor Dinas Casnewydd.⁴⁹

44. Cyn y pandemig, roedd negeseuon am bresenoldeb ysgol yn glir iawn, ond newidiodd hyn oherwydd y pandemig. Awgrymodd Cyngor Bro Morgannwg fod effaith newidiadau cymdeithasol ehangach, gyda'r newid i weithio gartref hefyd yn ffactor cyfrannol gan nad oedd presenoldeb yn gyfystyr â chyrhaeddiad na deilliannau mwyach.⁵⁰ Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru y bu gostyngiad sylweddol ym mhryder rhieni ar bwysigrwydd presenoldeb, a bod myfyrwyr hefyd o'r farn nad yw presenoldeb mor bwysig.⁵¹

45. Bu cysylltiad agos mewn newidiadau yn y ffordd y mae teuluoedd yn ymdrin â salwch nad yw'n ddifrifol, oherwydd rheolau hunanynysu a newidiadau agwedd ehangach. Tynnodd

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA62, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 11

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA45, Cyngor Dinas Casnewydd

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA18, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

Comisiynydd Plant Cymru sylw at y ffaith y gallai teuluoedd “deimlo nawr y dylen nhw gadw plant gartref” sydd â symptomau ysgafn ond “yn ddigon iach i fynd i’r ysgol”.⁵² Ategodd Cyngor Bro Morgannwg y farn hon.⁵³

46. Roedd galwadau eang am angen ymgyrchoedd i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Dywedodd y Comisiynydd Plant y dylid cael cymysgedd o negeseuon cenedlaethol a lleol, gyda negeseuon lleol yn gallu ystyried y berthynas sydd gan ysgolion â’u dysgwyr eu hunain ac adlewyrchu’r cyd-destun lleol. Gall y gwaith lleol hwn fod yn llawer mwy effeithiol o ran deall a goresgyn diffyg presenoldeb. Dywedodd ei bod yn bwysig nad yw’r gwaith hwn yn cosbi nac yn gwarthnodi’r plant nad ydynt mynd i’r ysgol, neu na allant fynd i’r ysgol, am ba reswm bynnag.⁵⁴ Dywedodd ei bod yn bwysig cefnogi ysgolion o ran sut y maent yn meddwl am annog presenoldeb, i fabwysiadu dull sy’n canolbwyntio ar blant.⁵⁵ Adleisiodd NASUWT Cymru hyn, gan ddweud bod angen i negeseuon fod yn sensitif a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeirio i wasanaethau priodol. Dywedodd y byddai cosbi dysgwyr a gofawyr heb y cymorth hwn yn wrthgynhyrchol.⁵⁶

47. Dywedodd UCAC y dylai’r ymgyrch ganolbwyntio ar rieni i “ailystyried pwysigrwydd addysg”. Dylai fod yn ymgyrch galonogol sy’n dangos effaith diffyg presenoldeb ar blant a phobl ifanc. Dywedodd y dylai ymgyrch o’r fath godi ymwybyddiaeth rhieni “Os nad yw fy mhlentyn i yn yr ysgol, dwi’n eu hamddifadu nhw o gyfleoedd arbennig”.⁵⁷

48. Cododd rhai effaith COVID-19 hir, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru. Nododd y gall hyn fod naill ai o ganlyniad i blentyn ei gael, neu oherwydd bod aelod o’r teulu wedi’i gael.⁵⁸ Tynnodd NASUWT Cymru sylw at ddata gan lechyd Cyhoeddus Cymru sy’n nodi bod 10 y cant o’r rhai sydd â COVID-19 yn debygol o gael Covid hir. At hynny, tynnodd sylw at y ffaith y gall rhai dysgwyr fod â Covid hir heb ddiagnosis a all roi cyfrif am rai absenoldebau y mae’n ymddangos nad ydynt yn ymwneud â COVID-19.⁵⁹

49. Dywedodd y Gweinidog ei fod eisoes yn edrych ar strategaeth gyfathrebu fel y gellir annog rhieni a dysgwyr yn ôl i’r ysgol. Roedd o’r farn bod angen negeseuon cenedlaethol yn

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

⁵⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 116-117

⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 142

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

ogystal â rhai lleol, ac y byddant yn gweithio ac yn profi rhai o'r negeseuon mwyaf effeithiol. Dywedodd y canlynol hefyd:

*"I was very struck—in fact, this was Ann John's evidence—by her reference to schools reminding learners and parents that they are places of belonging and connectedness, I think was the phrase that she used, which I thought was a very powerful way. And I think most people would feel the need to remake those connections and remake that sense of belonging in whatever walk of life we're in, and I think it's the same for schools."*⁶⁰

50. Tybiodd y bydd negeseuon mwy cadarnhaol yn fwy effeithiol na negeseuon sy'n ymwneud â chydymffurfio. Roedd hefyd yn credu ei bod yn ymddangos yn synhwyrol y bydd negeseuon lleol yn cael mwy o effaith ac awgrymwyd hynny yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym.⁶¹

Argyfwng costau byw/cost y diwrnod ysgol

51. Roedd y Comisiynydd Plant yn glir iawn bod angen ystyried absenoldeb cyson yng nghydestun tlodi. Dywedodd fod angen i drechu tlodi plant "fod yn sbardun allweddolwrth leihau absenoldeb o'r ysgol ...". Mae hyn yn ymwneud â pholisïau cenedlaethol, ond hefyd â pholisïau ysgolion unigol i sicrhau nad yw tlodi'n gweithredu fel rhwystr rhag presenoldeb. Lluniodd ei swyddfa adroddiad yn 2019 a dynnodd sylw at effaith costau'r ysgol, gan gynnwys:

- Gwisg ysgol (er gwaethaf canllawiau a chymorth Llywodraeth Cymru gyda chostau);
- Cyflenwadau megis llyfrau, technoleg, deunyddiau celf a chrefft, deunydd ysgrifennu, bagiau ysgol;
- Digwyddiadau arbennig yn yr ysgol megis teithiau ysgol a mentrau codi arian;
- Clybiau ar ôl ysgol a diffyg cludiant am ddim.

52. Dyfynnodd un rhiant o'r adroddiad yn dweud: "Mae ysgolion yn llawer rhy ddur i bobl sydd prin yn gallu fforddio bwyd".⁶² Cytunodd yr Athro Ann John fod trechu tlodi a'i effaith addysgol y tu hwnt i ysgolion a bod angen diwygiadau polisi ehangach.⁶³ Tynnodd sylw hefyd at yr angen i fod yn fwy rhagweithiol wrth wella'r nifer sy'n hawlio cymorth megis prydau ysgol am ddim neu grantiau gwisg ysgol. Dywedodd y canlynol: "we're often asking people who are

⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 105

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

⁶³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 270

under the most burden in terms of if they are in work that can be unpredictable or difficult and it's hard to get time off, to have the biggest administrative burden in their lives".⁶⁴

53. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru nad oedd ganddi dystiolaeth galed am effaith yr argyfwng costau byw ar bresenoldeb, ond dywedodd wrthym fod dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu ei fod yn ffactor.⁶⁵ Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru fod dystiolaeth anecdotaidd bod hynny'n wir.⁶⁶

54. Cododd nifer o randdeiliaid faterion penodol ynghylch cost teithio i'r ysgol ac oddi yno. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod y ffigyrau presenoldeb yn "sylweddol is" i blant mewn grwpiau blwyddyn nad oes ganddynt hawl i deithio am ddim. Galwodd i gamau gael eu cymryd i "estyn cwmplas y dysgwyr sydd â hawl i deithio ..." ac nad yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 yn "addas at y diben".⁶⁷ Dywedodd fod meini prawf cymhwysedd radiws tair milltir presennol yn achosi problem, yn enwedig os nad yw'r llwybr yn ddiogel neu os oes rhaid iddynt gario bagiau ysgol trwm iawn. At hynny, tynnodd sylw y gall hyd yn oed y rhai sy'n byw o fewn y radiws tair milltir wynebu heriau wrth gerdded i'r ysgol.⁶⁸ At hynny, tynnodd Plant yng Nghymru sylw at y mater hwn, gan ddweud bod llawer o deuluoedd mewn tlodi'n gorfod byw o'r llaw i'r genau sy'n golygu mai dim ond yn achlysurol y gallant dalu am gludiant i'r ysgol.⁶⁹ Galwodd rhanddeiliaid eraill am adolygiad o'r Mesur, ond am resymau gwahanol. Er enghraifft, tynnodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru sylw y gall trafndiaeth gyhoeddus fod yn llethol oherwydd anawsterau synhwyraidd i rai pobl awtistig.⁷⁰

55. Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg fod ffactorau megis plant yn byw mewn cartrefi deulol; neu lle y mae datrysiadau trafndiaeth a sefydlwyd yn flaenorol wedi methu oherwydd costau tanwydd. Er enghraifft, soniodd nad oedd disgybl BI11 yn mynd i arholiadau oherwydd bod y ddarpariaeth bysiau a drefnwyd wedi dod i ben ac nid oedd yn gallu talu costau bysiau preifat, nes i Gyngor Bro Morgannwg gamu i'r adwy.⁷¹

56. Roedd y Gweinidog yn derbyn bod darlun heriol iawn mewn perthynas â phwysau costau byw y mae nifer o aelwydydd yn eu hwynebu. Gwnaeth ein cyfeirio at gyhoeddiad y Prif Weinidog bod adolygiad manylach ar droed ar ôl adolygiad cychwynnol o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). Tynnodd sylw hefyd at gynnydd yng nghyllid mynediad grant amddifadedd

⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 285

⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 26

⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

⁶⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 122

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

disgyblion; a'r gwaith y mae Plant yng Nghymru yn ei wneud wrth ddatblygu canllawiau i ysgolion ynglŷn â sut i leihau cost y diwrnod ysgol.⁷²

Ein barn ni

57. Rydym yn pryderu bod diffyg cysondeb ar draws Cymru o ran cymorth i ddysgwyr sy'n ymraffael â heriau iechyd meddwl, neu'r dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gallu teilwra cymorth yn ôl anghenion unigol a chyd-destunau lleol, ond ni ddylai hyn fod ar draul sicrhau cydraddoldeb cymorth ar draws Cymru. Dylid cael llinell sylfaen o gymorth y gall yr holl blant a phobl ifanc ddisgwyl cael mynediad iddo, ni waeth lle yng Nghymru y maent yn byw ac yn astudio. Er bod cyllid ac adnoddau'n hollbwysig, mae angen gwella'r broses o rannu arferion da ar draws Cymru. Pan fydd prosiectau neu ddulliau'n gweithio, dylai hyn gael ei rannu ar draws awdurdodau lleol ac ysgolion, fel bod modd adeiladu ar yr arfer da hwn.

58. I ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, rydym yn poeni nad oes digon o adnoddau yn y system i ddarparu'r cymorth angenrheidiol. Fel rhan o waith drwy gydol y Senedd yn edrych ar weithredu diwygiadau addysg, rydym wedi ysgrifennu yn ddiweddar at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryderon nad ystyrir bod ADY gan nifer sylweddol o blant sydd wedi'u categoreiddio'n ffurfiol fel plant ag AAA dan y system newydd.⁷³ Cawsom ymateb cynhwysfawr gan y Gweinidog ar y mater hwn.⁷⁴ Ar ôl cael y llythyr hwn, gwnaethom gytuno i ofyn am farn rhanddeiliaid, a byddwn yn parhau i fonitro'r mater hwn fel rhan o'n gwaith parhaus yn edrych ar weithredu'r diwygiadau addysg.

59. Mae'n amlwg bod cau ysgolion a chyfyngiadau oherwydd y pandemig wedi arwain at agwedd fwy derbyngar tuag at absenoldeb o'r ysgol i rai teuluoedd. Mae bellach yn hanfodol bod ysgolion, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i atgyfnerthu negeseuon am bwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol. Mae'n rhaid i waith o'r fath dynnu sylw at y manteision sydd ar gael ar gyfer addysg plant a phobl ifanc, ond hefyd ar gyfer eu llesiant emosiynol a meddyliol ehangach. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen i'r negeseuon hyn fod yn gymysgedd o negeseuon cenedlaethol, cyson, a negeseuon lleol wedi'u teilwra yn ôl anghenion a chymunedau penodol ysgolion unigol ac ardaloedd lleol. Dylai'r negeseuon lleol a chenedlaethol fod yn gadarnhaol a darparu negeseuon cefnogol a chalonogol am bresenoldeb yn yr ysgol. Ni ddylent ddefnyddio tactegau codi ofn a all fod yn wrthgynhyrchiol.

⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

⁷³ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 8 Awst 2022

⁷⁴ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Medi 2022

Argymhelliad 1. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch genedlaethol i bwysleisio effeithiau cadarnhaol presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Ochr yn ochr â hyn, dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth i awdurdodau lleol ac ysgolion gynnal ymgyrchoedd cadarnhaol lleol, tebyg ynghylch presenoldeb yn yr ysgol. Dylai'r ymgyrchoedd gwahanol atgyfnerthu negeseuon o'r ymgyrchoedd eraill.

60. Er bod y dystiolaeth ar effaith costau byw a phresenoldeb yn yr ysgol yn fras anecdotaidd, rydym yn gwybod ei fod yn adeiladu ar faterion hirsefydlog ynghylch cost y diwrnod ysgol sy'n rhagflaenu'r argyfwng costau byw presennol. Bydd y sefyllfa economaidd bresennol wedi dwysáu'r heriau presennol hyn i rai teuluoedd. Er ein bod yn croesawu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r materion hyn, credwn ei bod yn bwysig ein bod yn symud ymlaen o dystiolaeth anecdotaidd. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall yn llawn sut y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bresenoldeb. Dylai hyn gael ei wneud ar frys, a chyhoeddi'r canfyddiadau, gyda chymorth cynllun gweithredu clir fel y gallwn ddeall sut y bydd y rhwystrau hyn yn cael eu dileu. Ni ddylai'r un plentyn beidio â mynd i'r ysgol am na all ei deulu fforddio iddo fynd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth frys i sut y mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar allu disgyblion i fynd i'r ysgol. Dylai hyn gael ei wneud o fewn dau fis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn a bod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r adolygiad gael ei ategu gan gynllun gweithredu sy'n nodi pa waith fydd yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad.

61. Mae mynediad at ddulliau teithio priodol gan ddysgwyr yn fater hirsefydlog. Rydym yn ymwybodol y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanfyddiadau o adolygiad 2021 yn ddiweddar, a bod rhagor o waith yn parhau. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid ydym wedi cael gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru am hyn, ond rydym wedi gofyn amdani. Rydym yn deall yr ffrwynau cyllidebol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ar draws eu holl wasanaethau, ond rydym yn pryderu mai hyn sy'n sail i'r penderfyniadau, yn hytrach na dull dysgwr yn gyntaf. Ni ddylid atal plant a phobl ifanc rhag mynd i'r ysgol oherwydd anawsterau cael mynediad at ddulliau teithio fforddiadwy a diogel. Credwn fod cyfle ar gyfer datrysiadau mwy arloesol i'r mater lluosflwydd hwn, ac y dylai Llywodraeth Cymru edrych ym mhobman er mwyn sicrhau yr ystyrir pob opsiwn posibl.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mai anghenion unigol a phenodol plant a phobl ifanc sy'n sail i benderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu'r dull hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid i sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc fynediad at opsiynau trafndiaeth priodol i

gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Dylai'r adolygiad presennol edrych ar flaenoriaethu datrysiad dysgwr yn gyntaf; a dylai fod yn radical wrth chwilio am ddatrysiadau arloesol.

5. A yw grwpiau penodol o ddysgwyr yn fwy tebygol o fod yn absennol?

Mae'r data'n glir bod rhai grwpiau sy'n anghymesur fwy tebygol o gael absenoldeb parhaus o'r ysgol. Mae angen i fwy o ddata wedi'u dadgyfuno fod ar gael i helpu i lywio polisi i fynd i'r afael â'r materion hyn.

62. Dywedodd Estyn fod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bresenoldeb ac, wedi hynny, ar lesiant, dysgu a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys:

- *"Learners younger than statutory school age*
- *Learners in older year groups in secondary education*
- *Learners from socio-economically disadvantaged backgrounds*
- *Learners with additional learning needs.*"⁷⁵

Yn y bennod hon, rydym yn archwilio'r dystiolaeth a gawsom ynghylch rhai o'r grwpiau hyn.

63. Galwodd NASUWT Cymru am gynnal rhagor o ddadansoddiad i ddeall yn well y tueddiadau posibl mewn absenoldeb ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac a fu effaith anghymesur ar grwpiau eraill.⁷⁶

64. Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru y gall fod yn anodd gwneud cymariaethau rhwng data cyn y pandemig a'r data presennol, "oherwydd y gwahaniaethau o ran y ffordd y caiff presenoldeb ei gofnodi, ei ddadansoddi a'i gyhoeddi ar hyn o bryd o gymharu â'r hyn a wnaed cyn y pandemig, mae'n anodd gwneud cymariaethau am gyfraddau presenoldeb".⁷⁷

Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

65. Dywedodd Llywodraeth Cymru, ers mis Medi 2021, fod:

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

*"54.7% o'r dysgwyr ag ADY wedi bod yn absennol am 10.5 diwrnod neu fwy ar gyfartaledd, o gymharu â 31% o'r holl ddysgwyr. Mae 16% o'r dysgwyr ag ADY wedi bod yn absennol am 30.5 diwrnod neu fwy o gymharu â 12.5% o'r holl ddysgwyr."*⁷⁸

Fodd bynnag, ailadroddodd ei bod yn anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 64.

66. Fel rydym wedi nodi yn y bennod flaenorol, gall peidio â chael y math cywir o gymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fod yn ffactor cyfrannol mawr yn absenoldeb disgyblion.

67. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod absenoldeb cyn y pandemig yn uwch ymhlith y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.⁷⁹ Tynnodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru sylw at astudiaeth yn edrych ar gyfraddau presenoldeb tua 500 o blant ag awtistiaeth a ganfu fod canran syfrdanol (43 y cant) o'r myfyrwyr hyn yn absennol yn gyson.⁸⁰

68. Nodwyd bod capasiti ac adnoddau yn y system i gefnogi dysgwyr ADY yn effeithio ar bresenoldeb. Dywedodd Estyn fod ganddi bryderon penodol am yr effaith y mae wedi'i chael ar ddysgu, yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig. Roedd yn obeithiol y bydd lefelau presenoldeb y grŵp hwn yn cynyddu pan fydd mwy o staff ar gael mewn ysgolion ac wrth i wasanaethau ailagor a gallu rhoi'r cymorth y mae arnynt ei angen.⁸¹

69. Tynnodd yr Athro Ann John sylw y gall yr ymateb gan ysgolion fod yn wahanol, oherwydd natur yr angen dysgu ychwanegol:

"... Basically, girls with neurodevelopmental disorders, learning difficulties, conduct disorder, depression and other psychotic disorders were much more likely to be absent than boys, whereas we saw higher levels of exclusion amongst boys. One of the things we say in the paper is that, in some ways, that's the way people express what they have. So, some of the expressions of things like conduct disorder are much more likely to result in exclusion, whereas anxiety might result in things like school refusal. So, I think that dichotomy we have about attendance refusal and behaviour is not actually

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 176-177

helpful to highlighting that, actually, these are a lot of young people with extra vulnerabilities.”⁸²

70. Dywedodd y Gweinidog mai'r diwygiadau ADY presennol yw'r cyfle gorau i allu ailymgysylltu â'r disgyblion hyn a'u cael yn ôl yn yr ysgol. Dywedodd mai'r consensws cyffredinol oedd y bydd y diwygiadau'n helpu i wella presenoldeb y garfan hon o ddysgwyr.⁸³

Effaith tlodi

71. Rydym wedi trafod yn y bennod flaenorol effaith yr argyfwng costau byw / cost y diwrnod ysgol ar bresenoldeb. Dywedodd Plant yng Nghymru fod llawer o astudiaethau sy'n dangos bod plant mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol yn aml na'r rhai o gefndiroedd llai difreintiedig. Dywedodd yr ategir hyn gan ganfyddiadau'r Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd a gynhaliwyd ganddo yn 2021, pan ddywedodd 94 y cant o ymarferwyr yng Nghymru fod tlodi'n cael effaith ar brofiad plentyn yn yr ysgol. Roedd bwlio'n fater penodol:

"leading to lower self-esteem; hungry, leading to inability to concentrate; anxious and worried about their families' finances; and often unable to afford the cost of school uniforms, which again regularly led to feelings of not fitting in and being equal to their peers."

Dyweddodd Plant yng Nghymru fod canfyddiadau ei arolwg wedi'u hadleisio wedyn gan blant a phobl ifanc.

"They regularly spoke about poor mental health, lack of motivation, being bullied, feeling ashamed and embarrassed, all as a result of living in poverty. Being seen in a 'tatty' or ill-fitting second hand uniform; not being able to afford a PE kit and being in receipt of FSMs led children to feelings of isolation and 'not being good enough'."

Dyweddodd y byddai rhai plant yn annhebygol o esbonio hyn i gyfoedion a staff ysgol gyda rhai'n dod yn ddeheuig yn creu rhesymau dros absenoldeb. Soniodd am blentyn 10 oed yn dweud ei fod yn gorfod bod yn ddyfeisgar gyda'i straeon.⁸⁴

72. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod y bwlch mewn presenoldeb rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys bob amser wedi bod yn bresennol. Nododd ddata o fis Mai 2022 gyda'r bwlch yn 5.3

⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 268

⁸³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 32

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

pwynt canran ar gyfartaledd.⁸⁵ A darparodd Estyn y data ar draws y flwyddyn academiaidd a ddangosodd mai 6.4 y cant yw'r bwlch rhwng presenoldeb y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (82.5 y cant) a'r rhai nad ydynt yn gymwys (88.9 y cant) (o'i gymharu â bwlch 5.2 y cant cyn y pandemig a 5.8 y cant y llynedd).⁸⁶

73. Soniodd Cymwysterau Cymru fod y lefel uwch o absenoldeb i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn syml yn gylch dieflig lle mai'r rhai sydd fwyaf angen cefnogaeth ysgolion yw'r rhai mwyaf tebygol o fod ag absenoldeb uwch.⁸⁷ Dywedodd Plant yng Nghymru fod angen gwneud mwy i alluogi dysgwyr difreintiedig i ailymgysylltu â'r ysgol. At hynny, nododd y gallai'r adolygiad o anghydraddoldebau addysgol a gomisiynwyd yn ddiweddar helpu i lywio rhagor o waith yn y maes hwn.⁸⁸

74. Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg fod risg y gellid ystyried bod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwrthod mynd i'r ysgol, yn hytrach na'u bod yn orbryderus neu â ffobia os nad yw eu rhieni wedi gallu cael cyngor a chymorth neu ddiagnosis preifat ac ati.⁸⁹

75. Dywedodd yr Athro Ann John wrthym am y gydberthynas rhwng lefelau uwch o iechyd meddwl mewn cymunedau mwy difreintiedig. Er bod cryn dipyn o waith yn mynd i'r afael â hyn mewn ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, tynnodd sylw bod rhaid peidio ag anghofio am bobl o gefndiroedd mwy difreintiedig mewn ysgolion yr ystyrir bod eu dalgyrch yn gyfoethog ac yn llai difreintiedig. Dywedodd fod pobl ag anghenion uwch mewn ardaloedd risg is weithiau'n cael eu colli.⁹⁰

76. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith fod cydberthynas sylweddol rhwng dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed sy'n fwy tebygol o fod â hanes presenoldeb gwael a chyffredinrwydd anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Dywedodd fod nodi a chymorth cynnar yn hollbwysig fel rhan o'r jig-so wrth ymdrin ag absenoldeb ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.⁹¹

77. Dywedodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

O ran absenoldeb cyson, roedd 24.2% o'r dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn absennol am fwy na 30 diwrnod, o gymharu â 8.1% o'r

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA18, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA54, Cymwysterau Cymru

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

⁹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 257

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA62, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

*dysgwyr nad ydynt yn gymwys. Mae hyn yn destun pryder penodol gan ei fod yn awgrymu bod yr absenoldebau'n dechrau dod yn arfer. Bydd mynd i'r afael â hyn fel rhan o'n gwaith polisi i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, yn bwysig iawn. Bydd rôl Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, y Gwasanaeth Lles Addysg ac asiantaethau allweddol eraill, yn elfen allweddol o'n dull gweithredu.*⁹²

78. Pan godwyd y mater hwn gyda'r Gweinidog, dywedodd ei fod yn ymwybodol iawn o lefelau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd yn credu bod y cyllid ar gyfer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mor bwysig gan y gall gynnig dull pwrpasol, wedi'i deilwra.⁹³ Rydym yn edrych ar gapasiti ac adnoddau swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn fanylach ym Mhennod 8.

Gofalwyr ifanc

79. Clywsom fod gofalwyr ifanc yn aml â lefelau absenoldeb uwch. Dywedodd Barnardo's Cymru mai'r rheswm dros hyn yw'r angen i ddarparu gofal, ond hefyd gan fod llai o gymorth ar gael gan oedolyn i fynd i'r ysgol. Soniodd am ofalwr ifanc oedd yn methu mynd i'r ysgol gan nad oedd neb ar gael i olchi ei gwisg ysgol. Hi oedd yn ymgymryd â phob rôl gofalu gartref. Dywedodd Barnardo's Cymru fod gofalwyr ifanc yn aml yn teimlo wedi'u gwarthnodi a'u hynysu ac nad oedd ysgolion yn aml yn gwybod sut y gallai cyfrifoldebau gofalu effeithio ar bresenoldeb neu, mewn rhai achosion, fod plant yn ofalwyr ifanc.⁹⁴

80. Clywsom gan riant hefyd a dynnodd o'i brofiad blaenorol ei hun fel gofalwr ifanc i esbonio pam roedd wedi bod yn absennol o'r ysgol yn aml. Yn gyson â'r dystiolaeth gan Barnardo's, dywedodd fod ei habsenoldeb yn aml allan o'i rheolaeth, ond bod pobl yn gwneud iddi deimlo mai hi oedd ar fai pe bai'n hwyr neu'n absennol. Galwodd i amgylchiadau personol plentyn gael eu hystyried bob amser.⁹⁵

81. Cydnabu'r Gweinidog fod angen gwneud mwy i nodi'r cymorth y mae ar ofalwyr ifanc ei angen. Dywedodd ei fod yn dipyn o fater cudd, sy'n cyd-fynd â'r dystiolaeth ehangach a glywsom. Cydnabu, er y bydd gan athrawon ymwybyddiaeth gyffredinol o ofalwyr ifanc, nad yw'n wir bob tro.⁹⁶

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 37

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA33, Barnardo's Cymru

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA29, Unigolyn

⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 107

Grwpiau eraill

82. Clywsom hefyd am bwysau y mae grwpiau eraill o blant a phobl ifanc yn eu hwynebu.

Plant a phobl ifanc o gefndir lleiafrif ethnig

83. Tynnodd y Comisiynydd Plant sylw at y ffaith bod plant a phobl ifanc o gefndir lleiafrif ethnig wedi wynebu "effeithiau anghymesur" o'r pandemig. Galwodd am "[g]efnogaeth sensitif, wedi'i theilwra ... gyda chefnogaeth i'w llesiant a luniwyd yn benodol ...".⁹⁷ At hynny, pwysleisiodd Estyn fod y pandemig cael ergyd drom ar y cymunedau hyn. Nododd ysgol sydd wedi gweithio'n eithriadol o galed i weithio gyda chymunedau lleol. Dywedodd fod gweithio'n galed gydag arweinwyr cymunedol wedi bod yn allweddol, ond ei fod yn cymryd llawer o amser.⁹⁸

84. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod cyfraddau absenoldeb y grŵp hwn o blant a phobl ifanc "yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer absenoldebau o 10.5 diwrnod neu fwy a 30.5 diwrnod neu fwy".⁹⁹

Plant a phobl ifanc o gefndiroedd sipsw / roma / teithwyr

85. Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd;¹⁰⁰ NASUWT Cymru¹⁰¹; y Comisiynydd Plant¹⁰² a'r NEU¹⁰³ fod plant a phobl ifanc o'r cymunedau sipsw, roma a theithwyr yn parhau i fod â chyfraddau absenoldeb is. Mae hyn yn fater hirsefydlog sy'n rhagflaenu'r pandemig.

86. Nododd Llywodraeth Cymru absenoldebau'r grŵp hwn o ddysgwyr (ynghyd â dysgwyr ADY a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) yn "destun pryder penodol oherwydd y lefelau uchel o absenoldeb ... cyn y pandemig".¹⁰⁴

Plant a phobl ifanc hŷn

87. Dywedodd Estyn wrthym, er mai tua 88-90 y cant yw presenoldeb grwpiau blwyddyn cynradd a blwyddyn 7, ei fod yn gostwng drwy'r grwpiau blwyddyn uwchradd. Mae lefelau

⁹⁷ Gwybodaeth ychwanegol – Comisiynydd Plant Cymru

⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 177

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA45, Cyngor Dinas Casnewydd

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

¹⁰² Gwybodaeth ychwanegol – Comisiynydd Plant Cymru

¹⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 55

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

presenoldeb ar eu hisaf i'r rhai yn y prif flynyddoedd arholiadau. Dywedodd fod disgybl blwyddyn 11, ar gyfartaledd, wedi colli mwy na 4 wythnos o ysgol eleni.¹⁰⁵

88. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod angen “dull gweithredu gwahanol ar gyfer pobl ifanc hŷn”. Roedd yn credu bod gwaith ieuencid a modelau cyfranogol yn fodolau da a fyddai'n helpu i wella presenoldeb ymhlith y garfan hon.¹⁰⁶

89. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod 66.2 y cant o ddisgyblion blwyddyn 11 yn absennol am 10.5 diwrnod, gyda 22.6 y cant yn absennol am 30.5 diwrnod. Tynnodd sylw at £1.28 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2021-22 ar gyfer cymorth penodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddisgyblion blwyddyn 11 nad ydynt yn mynd i'r ysgol ac nad ydynt yn debygol o gwblhau cymwysterau TGAU.¹⁰⁷

90. Soniodd Estyn hefyd am effaith absenoldebau staff arbenigol ar blant hŷn. Dywedodd y gall disgyblion hŷn sy'n gweithio tuag at gymwysterau benderfynu peidio â mynd i'r ysgol os ydynt yn ymwybodol bod athro arbenigol i ffwrdd o'r gwaith, ac y bydd y wers yn cael ei haddysgu gan rywun nad yw'n arbenigol.¹⁰⁸

91. Roeddem yn ymwybodol bod hyn yn digwydd o ganlyniad i waith achos, ac y gall disgyblion eraill weithiau deimlo pwysau i helpu i gefnogi cyd-ddisgyblion, a gall hyn achosi straen gormodol. Gwnaethom godi hyn gyda'r Gweinidog mewn gohebiaeth.¹⁰⁹ Wrth ymateb dywedodd, er bod cyrchu cyflenwad sy'n “addas ar gyfer anghenion y dysgwyr” yn gyfrifoldeb i ysgolion unigol, fod gwaith parhaus i ymdrin â rhai “clystyrau o anawsterau wrth recriwtio staff i bynciau uwchradd penodol mewn rhai ardaloedd ... ac i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau penodol”.¹¹⁰

Plant a phobl ifanc â chyflyrau meddygol

92. Cawsom wybod am yr heriau penodol y mae plant a phobl ifanc â diabetes yn eu hwynebu. Dyma un o'r cyflyrau cronig mwyaf cyffredin ymhlith plant (1 o bob 700 o blant). Cawsom wybod bod y grŵp hwn o blant yn absennol am 9 sesiwn ychwanegol y flwyddyn, a bod y rhai oedd â heriau yn rheoli eu diabetes wedi colli 15 sesiwn ychwanegol. Clywsom fod y plant hyn yn wynebu sawl anfantais, yr her o ran hunanreoli eu diabetes bob dydd ac o ran colli

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

¹⁰⁶ Gwybodaeth ychwanegol – Comisiynydd Plant Cymru

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

¹⁰⁹ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 6 Gorffennaf 2022

¹¹⁰ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Medi 2022

addysg ac yna'r angen i ddal i fyny yn eu hamser eu hunain. Roedd galw am fwy o gymorth ac ymwybyddiaeth gan staff ysgolion i'w galluogi i gefnogi'r grŵp hwn o blant yn well.¹¹¹

93. Tynnwyd sylw hefyd at y problemau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu gyda phoen / neu flinder cronig. Dywedwyd wrthym yr amcangyfrifir bod presenoldeb 10,700 o blant yn yr ysgol yn llai na 90 y cant oherwydd poen neu flinder cronig, ac nad oes llwybrau gofal cydgyssylltiedig a chydlynol.¹¹²

Defnyddio data i nodi tueddiadau a phatrymau

94. Clywsom y gallai data gael eu defnyddio'n well i ddeall patrymau presenoldeb, tueddiadau ac i nodi pa ymyriadau sydd eu hangen. Galwodd y Comisiynydd Plant i ddata presenoldeb ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22 gael eu "dadansoddi'n drylwyr" am y rheswm a ganlyn:

*"gallai'r data ynghylch absenoldeb cyson a chyffredinol eleni fod yn wahanol iawn i'r data cyn y pandemig. Cofnodwyd effaith anghymesur y pandemig ar grwpiau penodol o blant yn helaeth, gan gynnwys yn adroddiadau fy swyddfa ar brofiadau plant anabl a phlant o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio'n arbennig ar ofalwyr ifanc, gan fod yr amharu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn aml wedi effeithio ar eu bywyd teuluol a'u cyfrifoldebau gofalu. Bu effeithiau penodol hefyd ar bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gydag amharu ar drefniadau cyswllt teuluol. Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio'n anghymesur ar blant sy'n byw mewn tlodi neu'n agos at hynny."*¹¹³

95. Galwodd y Comisiynydd Plant hefyd i fwy o ddata wedi'u dadgyfuno fod ar gael yn gynharach yn y flwyddyn academiaidd i helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i wneud mwy o waith cynllunio manwl ac ymateb i'r materion, fel y gallant ddeall yn iawn pa grwpiau penodol yr effeithir arnynt fwyaf.¹¹⁴ Awgrymodd y byddai hyn hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i weithio gyda "gyda grwpiau cymunedol penodol lle bo hynny'n briodol".¹¹⁵

96. Galwodd nifer o randdeiliaid eraill hefyd am ddata manylach a mwy amserol sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru; a'r Athro Ann John.¹¹⁶ Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru nad yw niferoedd cyffredinol yn dda iawn i ganfod pam y mae presenoldeb mor wael. Dywedodd ei bod yn

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA39, Prifysgol Caerdydd

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA52, Pediatregydd, Ysbyty Athrofaol Cymru

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

¹¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 111

¹¹⁵ Gwybodaeth ychwanegol – Comisiynydd Plant Cymru

¹¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 292-293

bwysig i'r data esbonio pam, gan y bydd hynny'n helpu ysgolion. Nododd nad yw cael un cod cyffredinol ar gyfer salwch yn fawr o help i ddeall pam nad yw'r disgyblion hyn yn yr ysgol.¹¹⁷

97. Cytunodd Estyn, gan ddweud y byddai trawsddadansoddiad o ddata yn helpu Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag awdurdodau lleol.¹¹⁸ Tynnodd sylw hefyd at y defnydd anghyson o godau presenoldeb gwahanol ar draws ysgolion unigol.¹¹⁹

98. Cododd Cyngor Sir Caerfyrddin fater penodol ynglŷn â chodau presenoldeb sydd wedi achosi trafferthion yn lleol:

*"There are a significant number of N codes (no reason provided for absence) this year, particularly in secondary schools. the WG guidance on attendance codes 2010 states that these N codes should be changed within a maximum of 10 days. However, secondary schools report that in order for their SIMS system to identify and generate 'Letters regarding poor attendance', they can only mark pupils as N and not O. If they are marked as O, they will not be identified as needing a letter on the system. There is therefore a conflict between the admin needs of our secondary schools and the WG guidance. This has been raised with the data team and with headteachers."*¹²⁰

99. Dywedodd yr Athro Ann John y gallai data a gesglir fel mater o drefn gael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Yna, byddai modd darparu'r cymorth hwn yn gyfrannol gyda grwpiau risg uchel. Yn benodol, dywedodd y gall fod yn anoddach i'r rhai o gymunedau mwy difreintiedig gael mynediad at wasanaethau cymorth.¹²¹ Roedd hefyd yn credu'r canlynol:

*"... we could be using routinely collected absence and exclusion data, (1) to flag the children who might need extra support, but (2) to look at what's happening in schools. We could be looking at trends in absences and exclusion, trends in managed moves, trends in how children are moving between schools. We found some evidence of off-rolling towards the 14 to 16-year-olds. I think there's data that we can look at that can inform policy, but also service improvement in many ways."*¹²²

¹¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 36-37

¹¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 172

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA66, Cyngor Sir Caerfyrddin

¹²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 287-288

¹²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 275

100. Dywedodd mai'r hyn sy'n cael ei gyfrif sydd o bwys. Pan gaiff pethau eu cyfrif weithiau, mae'n dod â labelau strategol a phob math o bethau mympwyol i amgylchedd. Roedd am i ddata absenoldeb gael eu casglu'n fwy fel mater o drefn, a fyddai'n galluogi targedu cymorth yn well.¹²³ Galwodd y Comisiynydd Plant hefyd i absenoldeb cyson gael ei ystyried yn arwydd bod rhywbeth o'i le, gan ddweud ei fod yn symptom ac yn achos.¹²⁴

101. Dywedodd yr Athro Ann John fod ei hymchwil wedi canfod cysylltiad rhwng ystod o anhwylderau niwroddatblygiadol a phroblemau iechyd meddwl gydag absenoldeb. Mae'n credu bod hynny'n golygu bod angen defnyddio'r data hyn mewn ffyrdd gwahanol:

*"absence and exclusion data, because we also looked at exclusion, is routinely collected in schools, and we could use that data to highlight the young people that need extra support, rather than viewing it in a sometimes punitive way. So, I would say that our findings are that absences and exclusions are strongly associated with conditions—and it doesn't matter what label you put on those conditions—and children and young people who have extra need requirements and need extra mental health support."*¹²⁵

102. Dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth eisoes yn ailddadansoddi llawer o ddata mewn ymateb i ymholiadau, a'i bod yn ceisio canfod ffyrdd iddynt fod ar gael i'r cyhoedd os oes galw am hynny. Mae'n agored i geisiadau i ystyried ffyrdd gwahanol o werthuso a dadansoddi data. Dywedodd y byddai'n cyhoeddi crynodeb o'r data presenoldeb dwy flynedd flaenorol yn yr hydref ac y byddent yn cael eu dadgyfuno drwy gyfeirio at anghenion dysgu ychwanegol, rhyw, cymhwysedd prydu ysgol am ddim, grwpiau blwyddyn a charfanau eraill.¹²⁶

103. At hynny, tynnodd sylw bod rhywfaint o hyblygrwydd ar hyn o bryd mewn awdurdodau lleol iddyn atodi eu codau eu hunain i rai o'r data er mwyn iddynt allu olrhain eu mentrau eu hunain neu feysydd pryder lleol penodol.¹²⁷

104. Mewn gohebiaeth ddilynol, dywedodd y Gweinidog wrthym fod ysgolion yn defnyddio data presenoldeb i dynnu sylw at bryderon gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg, a all arwain at atgyfeiriad CAHMS. Dywedodd ei fod yn "awyddus i wybod" sut y gellir defnyddio data presenoldeb i gefnogi ymyriad cynnar. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu

¹²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 292

¹²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 129

¹²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 263-264

¹²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

¹²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 35

“[c]omisiynu ymchwil i edrych ar hyn”. Bydd hyn yn adeiladu ar yr ymchwil bresennol dan arweiniad yr Athro Ann John.¹²⁸

Ein barn ni

105. Mae’n amlwg bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gynnal presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, ac nid oes ganddynt reolaeth dros lawer ohonynt. Mae’n bwysig bod yr ysgolion yn cydnabod y rhain ac yn eu hystyried. Mae angen i ysgolion fod yn ystyriol o amgylchiadau unigol plentyn, a sut y gallai’r rhain effeithio ar bresenoldeb ac ymgysylltu â’r ysgol. Rydym yn arbennig o ymwybodol o’r rhwystrau y mae gofawyr ifanc a phlant a phobl ifanc â chyflyrau meddygol neu salwch tymor hir yn eu hwynebu. Credwn y gall rhai o’r datblygiadau arloesol sydd wedi deillio o’r pandemig, megis dysgu cyfunol gynnig opsiwn effeithiol i helpu’r grwpiau hyn o ddysgwyr i gynnal presenoldeb ac ymgysylltu. Rydym yn edrych ar ddysgu cyfunol yn fanylach ym Mhennod 8.

106. Rydym yn cefnogi’r argymhellion yn yr adolygiad a oedd yn ceisio gwella’r gwaith o gasglu, cyhoeddi a dadansoddi data absenoldeb disgyblion. I ni, mae’n amlwg bod angen dybryd am fwy o ddata dadgyfunol i helpu i nodi tueddiadau absenoldeb ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Dylai’r data hyn fod ar gael i’r cyhoedd, a’u cyhoeddi’n rheolaidd, gan alluogi dadansoddi tueddiadau mewn blynyddoedd academaidd, a rhannu arfer da. Mae hefyd yn bwysig bod y data hyn ar gael cyn gynted â phosibl fel y gallant helpu i gynllunio ymyriadau.

107. Cawsom ein darbwylllo gan dystiolaeth yr Athro Ann John y dylid defnyddio data absenoldeb disgyblion fel dull o gefnogi ymyriad cynnar ar gyfer materion niwroddatblygiad ac iechyd meddwl. Credwn y gallai hyn fod yn gam arwyddocaol ymlaen i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd o bosibl yn cael materion yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosibl. Mae ymyrryd yn gynnar yn hanfodol, ac mae’n gwella deilliannau plant a phobl ifanc. Rydym yn croesawu ymateb y Gweinidog i hyn.

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae’n bwriadu bwrw ymlaen â’r gwaith, gan edrych ar y defnydd o ddata presenoldeb i gefnogi ymyriadau cynnar. Wrth ddarparu’r manylion hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen amlinellol ar gyfer gwneud y gwaith hwn.

¹²⁸ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Medi 2022

6. Beth yw effaith absenoldeb?

Gall absenoldeb parhaus o'r ysgol gael effaith sylweddol ar ddysgu a llesiant plant a phobl ifanc.

108. Mae'n amlwg y gallai absenoldeb estynedig o'r ysgol am ba resymau bynnag gael effaith ar ddysgu, cyrhaeddiad ac iechyd meddwl. Rhoddodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Plant yng Nghymru,¹²⁹ y Comisiynydd Plant,¹³⁰ a'r NSPCC¹³¹ y mater hwn yng nghyd-destun CCUHP, a'n hatgoffa bod gan bob plentyn hawl i addysg sy'n datblygu ei bersonoliaeth, ei ddoniau a'i alluoedd i'r eithaf. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod yr ysgol, i'r rhan fwyaf o blant, "yn dod ag ystod eang, ddwys o fanteision, gan ddarparu ar gyfer eu haddysg, eu llesiant a'u diogelwch".¹³²

109. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod "cysylltiad sefydledig â phresenoldeb, cyrhaeddiad a lles". Dywedodd y cydnabu'r adolygiad:

*"fod lles ac iechyd meddwl, yn ogystal ag agweddau at ddysgu ac addysg, yn effeithio ar bresenoldeb. Ystyrir bod y gydberthynas rhwng presenoldeb a lles cyffredinol mor gryf nes bod presenoldeb yn aml wedi cael ei ddefnyddio fel mesur procsi mewn perthynas â lles yn y gorffennol. Gwyddom hefyd fod presenoldeb yn cael effaith fawr ar ddeilliannau, safonau a chynnydd dysgwyr. Er enghraifft, mae cysylltiad cryf rhwng canlyniadau arholiadau a chyfraddau presenoldeb."*¹³³

Yr effaith ar ddysgu a chyrhaeddiad

110. Dywedodd Cymwysterau Cymru y canlynol am y cyfnod cyn y pandemig:

"dim ond tua dwy ran o bump o ddisgyblion a gollodd rhwng 10 ac 20% o amser ysgol a gyflawnodd 5 TGAU da gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg. ... Er bod achosion cyrhaeddiad is yn gymhleth, mae

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA57, NSPCC

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

absenoldeb uwch o'r ysgol yn annhebygol o fod o fudd i ddysgu yn gyffredinol."¹³⁴

111. Dywedodd Estyn wrthym fod cyfran uwch o lawer o raddau U ar gyfer TGAU Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn 2021 nag yn 2020. Mae'r dysgwyr hyn mewn mwy o berygl o fod yn NEET [pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant] yn y blynyddoedd i ddod. Dywedodd nad oedd eto'n bosibl mesur yn gywir effaith y pandemig ar gyrhaeddiad, ond bod y gydberthynas rhwng presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad wedi bod yn gryf yn hanesyddol.¹³⁵ Er enghraifft, cyn y pandemig mae wedi adrodd yn flaenorol bod y myfyrwyr sydd â phresenoldeb mwy na 95 y cant yn yr ysgol bron dwywaith yn fwy tebygol o gael gradd C mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, o'u cymharu â myfyrwr sydd â phresenoldeb llai na 90 y cant.¹³⁶

112. Dywedodd NASUWT Cymru fod llawer o addysg wedi'i cholli oherwydd y pandemig mewn cymhariaeth â chenhedloedd eraill a bod y gwahaniaethau hyn fwyaf amlwg ymhlith y rhai lleiaf economaidd freintiedig.¹³⁷

113. Gall colli'r ysgol yn barhaus arwain olygu bod plentyn ar ei hôl yn academiaidd, gan greu cylch cythreulig, sydd wedyn yn cyfrannu i ymddieithriad a rhagor o absenoldeb fel y pwysleisiodd uwch arweinydd ysgol gynradd.¹³⁸ Mynegodd Cyngor Sir Caerfyrddin bryderon, oherwydd bod nifer gynyddol o ddysgwyr cynradd ac CA3 ar ei hôl o ran sgiliau personol a dysgu ac y bydd hyn yn effeithio arnynt mewn cyfnodau o'u haddysg yn y dyfodol.¹³⁹ Dywedodd Estyn, pan fo gan ddysgwyr fylchau pwysig mewn gwybodaeth a sgiliau allweddol, fod ymyriadau ysgol yn bwysig iawn.¹⁴⁰

114. Clywsom gan uwch-arweinydd ysgol gynradd yn awgrymu, pan fo plentyn yn cael trafferthion yn academiaidd, y gall fod yn anodd gwybod a oes angen dysgu penodol neu a yw'r lefelau isel o gynydd yn ganlyniad uniongyrchol i ddiffyg presenoldeb.¹⁴¹

115. Yn ogystal â'r effaith ar allu uniongyrchol plentyn i ddysgu, clywsom y gall absenoldeb o'r ysgol arwain at ganlyniadau tymor hwy, megis heriau wrth gael mynediad at addysg a hyfforddiant ar ôl 16; neu sicrhau cyflogaeth. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru y gall hefyd arwain at ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol yn y

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PA54, Cymwysterau Cymru

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PA58, Estyn

¹³⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 186

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PA59, NASUWT Cymru

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PA7, Uwch-arweinydd, Ysgol Gynradd

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PA66, Cyngor Sir Caerfyrddin

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 188

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig PA7, Uwch-arweinydd, Ysgol Gynradd

gymuned a mwy o drais ieuenctid.¹⁴² Mae'n ymwybodol o ddysgwyr sy'n ymwneud â grwpiau llinellau cyffuriau.¹⁴³ Dywedodd yr Athro Ann John y canlynol:

*"Attendance, absence and exclusions has been strongly associated in many studies with future trajectory. So, pupils' attainment in school, which is why it's an important factor for schools, but also employment and where you are economically in the future and mental health are predicted by those issues."*¹⁴⁴

116. Dywedodd NASUWT Cymru fod yr adolygiad diweddar yn awgrymu nad yw absenoldebau anawdurdodedig o reidrwydd yn ffactor achosol uniongyrchol ar gyfer cyflawniad is. At hynny, dywedodd fod absenoldebau anawdurdodedig yn aml yn arwydd o broblemau eraill ym mywyd dysgwr y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cefnogi eu llesiant a'u cyflawniad yn effeithiol. Dywedodd, er bod gan ysgolion rôl yn hyn o beth, ei bod yn gymharol i rôl sefydliadau eraill.¹⁴⁵

117. Cododd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y bwlch dysgu cynyddol rhwng disgyblion yn yr ystafell ddosbarth o ganlyniad i rai dysgwyr ymgysylltu'n "llawn" yn ystod y pandemig, pan nad yw eraill wedi ymgysylltu o gwbl. Dywedodd y bydd hyn yn achosi anawsterau i staff "i gynnal gwersi wedi'u hanelu at y lefelau amrywiol o allu".¹⁴⁶

118. Fel rydym eisoes wedi trafod yn y bennod flaenorol, mae rhai grwpiau sydd â lefelau absenoldeb uwch. Pwysleisiodd Plant yng Nghymru fod y gydberthynas hon yn cael effaith anghymesur ar ddisgyblion tlotach, gan ddweud bod y cysylltiadau rhwng presenoldeb gwael a lefelau cyrhaeddiad is yn arwain at ystod o heriau fel oedolion, gan gynnwys rhagolygon cyflogaeth gwaeth, digartrefedd ac iechyd gwaeth.¹⁴⁷

119. Galwodd Cyngor Bro Morgannwg i dybiaethau blaenorol am gyrhaeddiad a phresenoldeb gael eu diffinio'n well a'u mireinio ar ôl y pandemig:

"What does attendance mean in terms of wellbeing and safeguarding and socialisation benefits; and then separately, what does it mean in terms of outcomes and engagement and enjoyment of learning. Hard data in terms of qualifications and also soft data in terms of learner satisfaction and a form of happiness index ... Good performance needs to be measured using progress

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA18, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

¹⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 41

¹⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 248

¹⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

¹⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA55, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

¹⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

against baselines and with acceptance of the needs of the learner in the same way as is done for learners who are Children Looked After."¹⁴⁸

120. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at waith gan Estyn a Choleg Prifysgol Llundain a ddaeth i gasgliadau tebyg ynglŷn â'r cysylltiad rhwng presenoldeb yn yr ysgol a deilliannau addysgol, ac effaith hyn ar gyfer y rhai o gefndiroedd tlotach. Dywedodd mai dyma pam y bydd ei gwaith ar "fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, er mwyn sicrhau Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i bawb" yn canolbwyntio ar bresenoldeb. Dywedodd y bydd "gwella cyfraddau presenoldeb pob dysgwr, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel" yn un o'r mesurau y bydd yn eu defnyddio i asesu llwyddiant yn y maes gwaith hwn.¹⁴⁹

Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant

121. Fel rydym wedi amlinellu ym Mhennod 4, clywsom yn uniongyrchol gan deuluoedd am sut y gall materion iechyd meddwl arwain at ddirywiad mewn presenoldeb yn yr ysgol. Dywedodd rhai gweithwyr addysg proffesiynol y gall plant a phobl ifanc sydd â lefelau presenoldeb is gael trafferth cymdeithasu am eu bod yn teimlo 'allan ohoni' gyda'u grŵp cyfoedion gan fod cyfeillgarwch yn esblygu ac yn symud ymlaen yn eu habsenoldeb.¹⁵⁰ Dywedodd eraill y gall effeithio ar blant a phobl ifanc yn datblygu cydnerthedd gan eu bod yn dewis osgoi'r diwrnodau sy'n cynnwys gwersi penodol.¹⁵¹ Cytunodd Ymarferydd Adfer ACEs, gan ddweud bod plant yn dysgu bod angen iddynt osgoi'r sefyllfa, yn hytrach na'i hwynebu, er mwyn cael gwared ar eu hofnau/pryderon, ac nad yw hynny'n cynnig cyfle i feithrin cydnerthedd.¹⁵²

122. Mynegodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru bryderon ynghylch peidio â sylwi ar blant neu bobl ifanc sydd o bosibl gartref yn eistedd yn dawel y tu ôl i ddrws, â phroblemau iechyd meddwl dwfn, sylweddol a all ddeillio o'r unigrwydd. Dywedodd fod ar blant a phobl ifanc angen ysgolion a'r gymuned sy'n dod o'r ysgol yn rhannol fel y gellir nodi problemau o'r fath.¹⁵³ Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru hefyd â'r pryderon hyn.¹⁵⁴

123. Dywedodd Estyn fod y gydberthynas rhwng presenoldeb a llesiant yn llai syml.

"Missing a lot of school and getting behind in your learning can clearly have a negative impact on the learners' well-being, and in the short term, that

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

¹⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

¹⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA7, Uwch-arweinydd, Ysgol Gynradd

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA10, Pennaeth yr Ysgol

¹⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA49, Ymarferydd Adfer ACEs

¹⁵³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 42

¹⁵⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 47

could result in low self-esteem or anxiety around returning to school. And the longer the absence, of course, the greater the impact may be. And we know that, in the long term, poor mental health is associated with weaker outcomes at key stage 4.

However, there is an alternative narrative here too that's important. Some pupils may have poor attendance at school because of their mental health. Sadly, school is not a pleasant experience for all learners. It may be because they feel unfairly treated, maybe they feel bullied or harassed, they don't feel valued, or they don't feel that their individual needs are being met. And for these learners, being absent from school over the last two years, for whatever period of time it may be, may, in some ways, have been a tonic for them, and being off school may actually have had a positive effect on their mental health. In these cases, the thought of returning to school is problematic."¹⁵⁵

124. Pwysleisiodd yr Athro Ann John y rôl bwysig y gall ysgolion ei chael o ran nodi angen a sicrhau ymyriad cynnar. Dywedodd fod mwy na hanner problemau iechyd meddwl yn amlwg erbyn 14 oed.¹⁵⁶

125. Tynnodd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sylw hefyd at yr effaith y gall absenoldeb disgyblion ei chael ar iechyd corfforol "diffyg ymarfer corff yn arwain at syrthni, ffitrwydd yn gwaethygu a chynnydd mewn pwysau".¹⁵⁷

126. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig iawn i wella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Nododd y cyllid sylweddol uwch i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dull ysgol gyfan, a'i fod yn ymrwymiad trawslywodraethol clir iawn.¹⁵⁸

Ein barn ni

127. Mae effaith tymor byr a thymor hir absenoldeb parhaus ar ddysgu a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc yn amlwg. Rydym hefyd yn credu ei fod yn cael effaith ar eu llesiant, ac y gall absenoldeb parhaus fod yn risg diogelu o bosibl. O ran dysgu a chyrhaeddiad, rydym yn deall heriau cymharu canlyniadau arholiadau allanol, ond credwn y dylai Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion unigol fonitro deilliannau, megis

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 190-191

¹⁵⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 247

¹⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA55, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

cyfran y graddau U. Dylid monitro hyn fel y gellir dadansoddi'r data i ddeall deilliannau sy'n gysylltiedig â chyfraddau absenoldeb.

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro deilliannau addysgol a'r cysylltiadau â chyfraddau presenoldeb, ac yn cyhoeddi'r data hyn yn rheolaidd.

128. Fel rydym wedi amlinellu mewn penodau blaenorol, mae plant a phobl ifanc yn wynebu ystod o heriau iechyd meddwl. Gall ysgolion fod â rôl bwysig wrth gefnogi llesiant emosiynol plant a phobl ifanc a gall absenoldeb parhaus gynyddu neu ddwysáu anawsterau iechyd meddwl a llesiant.

129. Mewn perthynas â phwysau academiaidd sy'n cael eu rhoi ar blant, a phwysau arholiadau, nodwn fod y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn gwneud ymrwymiad i ddiwygio cymwysterau, gan gynnwys ehangu cymwysterau galwedigaethol.¹⁵⁹

¹⁵⁹ Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio, 1 Rhagfyr 2021

7. Beth fu effaith absenoldeb disgyblion ar addysg ddewisol yn y cartref?

Bu cynnydd amlwg yn y nifer sy'n addysgu yn y cartref yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae rhywfaint o hyn wedi'i briodoli i'r pandemig. Mae cymysgedd o resymau i bobl ddewis addysg yn y cartref. Mae'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref wedi'u hystedyn.

130. Nid oedd hwn yn ymchwiliad a oedd yn canolbwyntio ar addysg ddewisol yn y cartref. Fodd bynnag, un llinyn o'n cylch gorchwyl oedd a yw absenoldeb wedi arwain at lefel uwch o ddadgofrestru disgyblion ac unrhyw orgyffwrdd ag addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r dystiolaeth a glywsom a'r ystadegau'n dangos cynnydd sylweddol mewn addysg ddewisol yn y cartref, er bod hynny am ystod o resymau.

131. Awgrymodd Llywodraeth Cymru fod nifer o resymau pam y mae teuluoedd yn dewis addysg yn y cartref:

"Rhwng mis Ionawr 2020 a mis Ionawr 2021, nododd 30% o rieni/gofalwyr COVID-19 fel y rheswm dros ddewis addysgu eu plant yn y cartref. Nododd 27% arall bryder, bwlio, erlyniad am ddiffyg presenoldeb, angen meddygol y plentyn, methiant i ddiwallu anghenion AAA/ADY yn yr ysgol a'r gydberthynas â'r ysgol yn chwala fel y rheswm dros wneud hynny.

*Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Goleg Prifysgol Llundain yn 2021/22 ar blant yn y DU â chyflyrau niwroddatblygiadol, presenoldeb yn yr ysgol a rhwystrau i bresenoldeb, fod anghysondeb rhwng yr addysg a gynigir gan yr ysgol ac anghenion dysgu'r plentyn yn debygol o fod yn sail i broblemau o ran presenoldeb a datgofrestru."*¹⁶⁰

132. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod dadgofrestru "wedi cynyddu dros 50% yn y ddwy flynedd diwethaf".¹⁶¹ Soniodd Estyn

¹⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

¹⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA55, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

fod nifer yr addysgwyr yn y cartref bellach tua'r un peth â chyfanswm y boblogaeth ysgol mewn awdurdod lleol bach. Dywedodd fod y cynnydd hwn yn digwydd cyn y pandemig.¹⁶²

133. Tynnodd Estyn sylw hefyd nad yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data sydd wedi'u dadgyfuno ar ddysgwyr sy'n symud i addysg yn y cartref yn ôl grŵp oedran, anghenion dysgu ychwanegol na chymhwysedd prydau ysgol am ddim. Dywedodd y gallai mwy o ddata wedi'u dadgyfuno fod yn ddefnyddiol i nodi meysydd ar gyfer cymorth lleol neu genedlaethol.¹⁶³ Dywedodd fod gan awdurdodau lleol cyn y pandemig fynediad at ystod o ddata o ynghylch dadgofrestru, gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig. Roedd yn disgwyl i awdurdodau lleol ddadansoddi'r data hyn i ddeall patrymau sy'n ymwneud ag ysgolion penodol, grwpiau blwyddyn penodol neu grwpiau penodol o blant y mae'n ymddangos bod eu teuluoedd yn eu dadgofrestru. Fodd bynnag, tynnodd sylw nad oedd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r data hyn fel mater o drefn. Roedd y data a oedd ar gael i'r cyhoedd yn wybodaeth lefel uchel am nifer y dysgwyr a chyfradd y dysgwyr fesul awdurdod lleol fesul blwyddyn.¹⁶⁴ Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod wedi comisiynu Data Cymru i ddadansoddi'r datganiadau awdurdod lleol blynyddol ar gyfer y rhesymau pam y mae teuluoedd yn dewis addysg yn y cartref.¹⁶⁵

134. Soniodd nifer o randdeiliaid am yr effaith y mae'r cynnydd hwn wedi'i chael ar gapasiti awdurdodau lleol i gefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Tynnodd y Comisiynydd Plant¹⁶⁶ a'r NSPCC¹⁶⁷ sylw, hyd yn oed cyn y pandemig, nad oedd pob plentyn a oedd yn cael addysg yn y cartref yn cyfarfod â gweithiwr proffesiynol awdurdod lleol. Awgrymodd y Comisiynydd Plant mai llai na hanner y teuluoedd sy'n cael addysg yn y cartref ydoedd. Nododd y ddau fod y cynnydd sylweddol yn y rhai sy'n addysgu yn y cartref yn rhoi mwy fyth o straen ar y system.

135. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y gall defnyddio "mesurau cosbol" yng nghyswllt absenoldeb "arwain at ddatgofrestru, a gall y rhesymau gwaelodol dros absenoldeb cyson arwain at ddatgofrestru hefyd os nad ydynt yn derbyn sylw". Mae'r ddau ffactor hyn yn rhagflaenu'r pandemig. Dywedodd nad yw dadgofrestru am y rhesymau hyn yr un fath "â gwneud dewis rhagweithiol cadarnhaol i addysgu gartref". I'r teuluoedd sy'n teimlo nad oes dewis ganddynt, dywedodd y gallant "wynebu heriau gwirioneddol wrth geisio parhau i ddiwallu anghenion addysgol eu plentyn ...". Gall hyn gael ei ddwysáu gan ddiffyg cymorth allanol reolaidd, gyda cholli mynediad at gymorth llesiant a ddarperir drwy'r dull ysgol gyfan a cholli mynediad at wasanaethau cwnsela ysgolion. Gall yr heriau hyn wedyn arwain at rai plant sy'n

¹⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 199

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 47

¹⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

¹⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA57, NSPCC

cael eu dadgofrestru yn “colli addysg”. Mae problemau capasiti hefyd mewn awdurdodau lleol a all greu “rhwystr o safbwynt gallu awdurdodau i ddeall anghenion, cynnig cefnogaeth barhaus, neu gefnogi dychwelyd i leoliad ysgol os yw hynny er lles pennaf y plentyn.”¹⁶⁸

136. Dywedodd Barnardo’s Cymru fod rhai rhieni wedi dweud eu bod yn teimlo mai addysg yn y cartref yw’r unig ddewis. Dywedodd y gallai hyn fod am ystod o resymau ond tynnodd sylw at ddiffyg lleoliad ysgol priodol i blant ag ADY; neu oherwydd y gall absenoldeb cyson arwain at gosbau.¹⁶⁹ Dywedodd yr NSPCC fod ychydig dan 9 o bob 10 disgybl sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol ag angen addysgol arbennig.¹⁷⁰ Dywedodd Lleisiau Rhieni yng Nghymru wedi dweud mai pan fetho popeth arall ydyw i deuluoedd yn aml sydd, mewn rhai achosion, yn cael eu gorfodi oherwydd diffyg cymorth a darpariaeth amgen i ddysgwyr prif ffrwd niwrowahanol. Galwodd am bolisiau sy’n canolbwyntio ar blant ac sy’n hyblyg er mwyn galluogi dull cyfunol/cynhwysol o ddysgu i’r rhai sy’n cael trafferth dysgu yn yr ystafell ddosbarth ar ddiwrnodau penodol.¹⁷¹ Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth y byddai’n well gan rai rhieni sydd wedi gorfod addysgu yn y cartref i’w plentyn aros yn yr ysgol er mwyn datblygu’r sgiliau y bydd arnynt eu hangen i ddod o hyd i’w ffordd yn y byd fel oedolyn awtistig.¹⁷²

137. Dywedodd NASUWT Cymru, pan fydd disgyblion yn cael eu dadgofrestru, y dylai’r rhesymau dros y dewis hwn gael eu harchwilio fel y gall ysgolion wybod os oes ‘ffactorau gwrthio’, yn hytrach na ffactorau cadarnhaol, a rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â hwy. At hynny, nododd wahaniaethau yn y cymorth a ddarperir gan ysgolion ac awdurdodau lleol a all arwain at ddadgofrestru. Galwodd am fuddsoddiad anferth mewn cymorth digonol fel nad yw disgyblion yn dadgofrestru oherwydd diffyg cymorth.¹⁷³

138. I rai, mae’r pandemig wedi arwain at ddewis cadarnhaol i addysgu yn y cartref. Wrth restru ystod o resymau dros ddewis addysg yn y cartref, dywedodd Estyn fod y canlynol yn wir i rai teuluoedd:

“... [it was] simply a decision that, having been forced to try it during lockdowns, home learning worked well for the family and they wish to continue their education at home.”¹⁷⁴

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA33, Barnardo’s Cymru

¹⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA57, NSPCC

¹⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA64, Lleisiau Rhieni yng Nghymru

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

¹⁷³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 75 a 77

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

139. Cytunodd NASUWT Cymru, gan nodi bod y cynnydd mewn trefniadau gweithio hyblyg i rieni a gofalwyr hefyd wedi helpu teuluoedd i ddewis addysg yn y cartref.¹⁷⁵

140. Soniodd un teulu am y dewis i addysgu yn y cartref un diwrnod yr wythnos, ac roedd yn credu bod hynny'n bwysig ar gyfer llesiant y plentyn. Nid oedd am addysgu mwy na hyn yn y cartref, a dywedodd y byddai mwy o absenoldeb oherwydd salwch/straen heb wneud y penderfyniad hwn oherwydd bod gorbryder gan un o'r plant. Dywedodd fod gan y plentyn bresenoldeb 100 y cant heblaw am yr absenoldeb hwn. Galwodd am fwy o gymorth gan ysgolion i alluogi addysg ystwyth.¹⁷⁶

141. Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg ei fod wedi gwneud ymdrech ymwybodol i gynnig dull mwy cefnogol i rieni o ran dychwelyd i'r ysgol wedi Covid er mwyn atal llif o ddadgofrestriadau er mwyn addysgu yn y cartref oherwydd pryder am Covid. Dywedodd fod hyn yn golygu ei fod wedi cael nifer gymharol lai o ddadgofrestriadau nag awdurdodau lleol eraill, ond bod ganddo gyfraddau presenoldeb is hefyd o ganlyniad i hynny. Roedd yn credu bod modd cyfiawnha'r dull hwn oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar ddysgwyr a hefyd yn llai aflonyddgar i swyddogaethau ysgol, lleoedd ysgol a rhwymedigaethau cludiant. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd yn annog 'addysg hyblyg' ac y dylai unrhyw ddarpariaeth ran-amser fod ar sail tymor byr yn unig ac wedi'i dogfennu gan Gynllun Cymorth Bugeiliol.¹⁷⁷

142. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru ei bod yn credu mai yn yr ysgol yw'r lle gorau i addysgu a chefnogi dysgwyr.¹⁷⁸ Roedd yr holl undebau addysg yn ategu ac yn cefnogi'r farn hon. Cytunodd y NEU yn rhannol oherwydd cyfleoedd llesiant, cymysgu gyda phobl ifanc eraill a dysgu sgiliau eraill am oes.¹⁷⁹

143. Rydym yn ymwybodol y bu rhai pryderon ynghylch effaith addysg yn y cartref ar ddiogelu. Dywedodd yr NSPCC nad yw addysg yn y cartref yn peri risgiau diogelu ychwanegol i blant, ond ei fod yn golygu bod plentyn yn llai tebygol o gael ei weld, ei glywed a bod yn hysbys i'r awdurdod lleol ac mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd sydd gan weithwyr proffesiynol i'w cefnogi a chymryd camau i'w diogelu os oes angen. Dywedodd fod y penderfyniad gan y rhan fwyaf o rieni i addysgu yn y cartref yn cael ei wneud er budd pennaf y plentyn, ond mae'n pryderu na fydd hawliau dan CCUHP yn cael eu gwireddu i rai plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Dyna pam mae'n cefnogi cryfhau canllawiau sydd i ddod, ac yn cefnogi argymhellion y Comisiynydd Plant blaenorol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol i osod dyletswydd ar rieni i

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA36, Unigolyn

¹⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

¹⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 56

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

gofrestru plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Galwodd hefyd i awdurdodau lleol gael digon o adnoddau a chyllid i ddarparu gwasanaethau cymorth gwell.¹⁸⁰

144. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod gan ei swyddfa bryderon parhaus a chryn dystiolaeth iddynt am ddiffyg strwythurau cymorth i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Er bod llawer o blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ffynnu ac yn wir yn mwynhau addysg yn y cartref, dywedodd fod llawer wedi dweud eu bod am ddychwelyd i'r ysgol.¹⁸¹

145. Dywedodd y Comisiynydd Plant ei bod yn ymwybodol o effeithiau cadarnhaol iawn y cyllid uwch gan Lywodraeth Cymru (gweler paragraff 147). Dywedodd ei fod wedi bod yn gadarnhaol o safbwynt awdurdodau lleol, ond hefyd i rieni a dysgwyr oherwydd ei fod wedi galluogi mwy o gyfleoedd ymgysylltu a dysgu. Mae bellach yn eiriol yn daer dros gynnig cymorth cenedlaethol.¹⁸²

146. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

*"in order to get the full benefit of [education] reforms, children need to be at school, so I want to see children coming back to school. There's been a significant increase, as you say in your question, during the last period of COVID. For the overwhelming majority of children, being in school is far and away the best way of getting their education. Obviously, parents are entitled to make a different choice for their children, but the key thing is the right of the child to receive a suitable education, obviously."*¹⁸³

147. Dywedodd Llywodraeth Cymru, gan gydnabod y cynnydd mewn addysg yn y cartref, ei bod wedi darparu £1.7 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol gefnogi addysg ddewisol yn y cartref. Mae hefyd yn sefydlu dau weithgor a fydd yn canolbwyntio ar "y rhyngwyneb rhwng addysg ddewisol yn y cartref ac ADY a'r pecyn ehangach o gymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol." Rhan o'i rôl fydd "nodi arferion gorau wrth weithio gyda theuluoedd dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, atal y posibilrwydd y caiff plentyn ei ddatgofrestru o'r ysgol ... a helpu i ailintegreiddio ...".¹⁸⁴

148. O ran y pecyn cymorth sydd ar gael i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, dywedodd y Gweinidog mai dyma'r pecyn mwyaf hael ar draws y DU. Dywedodd ei fod am newid o ddull

¹⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig. PA57, NSPCC

¹⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 133

¹⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 135-136

¹⁸³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 47

¹⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig. PA65, Llywodraeth Cymru

cydymffurfio i un sy'n ymwneud â sefydlu perthynas, ac y gall mathau gwahanol o berthynas fodoli gyda'r ysgol. Amlinellodd rywfaint o'r cymorth sydd ar gael, gan gynnwys:

*"... looking at ways in which, for example, Hwb can be made available to parents who home educate their children, improved access to local exam centres, career support, resource and guidance, handbooks—a set of ways in which the resources available in school are more porous, if you wish, so that parents who are choosing to home educate can make use of them, and I hope can develop a different kind of relationship with the school, and make it easier for those parents who have maybe recently made the decision to encourage their children back."*¹⁸⁵

149. Mewn perthynas â'r data ar addysg yn y cartref, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y data ar gyfer 2021-22 wedi'u casglu gan Data Cymru. Fodd bynnag, bwriedir defnyddio'r adroddiad hwn "at ddibenion gweithredu a rheoli ac ni chaiff ei gyhoeddi." Dywedodd fod swyddogion yn ystyried a oes opsiynau ar gyfer rhannu fersiwn wedi'i haddasu, ac y bydd "data swyddogol, yn seiliedig ar ddatganiadau PLASC, yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref".¹⁸⁶

Ein barn ni

150. Mae'n amlwg iawn y bu cynnydd sylweddol yn nifer y teuluoedd sy'n dewis addysg yn y cartref ers y pandemig. I rai, mae hwn wedi bod yn ddewis cadarnhaol a gweithgar iawn ond, mae'n bosibl bod hynny'n llai gwir i eraill. Nid yw ein hymchwiliad wedi canolbwyntio ar addysg yn y cartref, ond roeddem am ddeall y berthynas rhwng absenoldeb disgyblion a dadgofrestru. Rydym yn nodi bod ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno newidiadau mewn perthynas ag addysg yn y cartref, y bydd y Senedd yn cael y cyfle i graffu arnynt yn ystod y misoedd i ddod.

151. O'r dystiolaeth a gasglwyd, rydym yn teimlo bod angen mwy o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd am ddadgofrestru ac addysg yn y cartref. Fel y dywedodd Estyn wrthym, mae'r data sydd ar gael i'r cyhoedd ar lefel uchel iawn. Rydym am gael mwy o ddata wedi'u dadgyfuno. Dylai hyn gynnwys y rhesymau i bobl ddadgofrestru, yn ogystal â data am y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i'r rhai sy'n addysgu yn y cartref. Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi dweud bod gwaith ar droed i archwilio ffyrdd o rannu rhai data â'r cyhoedd.

¹⁸⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 49

¹⁸⁶ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Medi 2022

152. Mae'n amlwg bod adnoddau wedi'u hymestyn cyn y pandemig, ac y bydd y cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n addysgu yn y cartref yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn rhoi mwy fyth o bwysau ar y gwasanaethau hyn. Felly, mae'n bwysig bod data ar gael i ddeall beth yw'r lle gorau i gyfeirio adnoddau a chapasiti. Bydd hefyd yn helpu i nodi pa gymorth sy'n darparu llwybr yn ôl i ysgolion, os yw'r teulu'n dewis hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'n ymddangos bod y dystiolaeth rydym wedi'i chlywed yn awgrymu bod rhai teuluoedd yn teimlo eu bod wedi'u gwrthio i addysg yn y cartref, yn hytrach na gwneud dewis gweithredol.

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data manylach am y rhesymau dros ddadgofrestru a dychwelyd i ysgolion ar ôl dadgofrestru, ochr yn ochr â data ar y cymorth a ddarperir i deuluoedd. Dylai'r data hyn gael eu dadgyfuno gan awdurdod lleol a dylent nodi demograffigau allweddol, megis oedran, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, a chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim.

8. Pa mor effeithiol yw polisïau presennol Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael ag absenoldeb yn yr ysgol?

Mae'r system addysg yng Nghymru yn cael ei diwygio'n sylweddol ar hyn o bryd. Gall rhai o'r diwygiadau hyn helpu i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus, ond mae'r system hefyd yn cael trafferth gyda chapasiti ac adnoddau.

Diwygiadau addysg presennol

153. Mae'r system addysg yng Nghymru yn mynd drwy ddatgymaliad radical ar hyn o bryd, gyda'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno, y system ADY newydd a'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol. Dyma bwnc ein hymchwiliad parhaus i weithredu diwygiadau addysg.

154. Roedd rhanddeiliaid a'r Gweinidog yn credu bod y diwygiadau'n gyfle i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion ynghylch absenoldeb. Dywedodd Cymwysterau Cymru ei fod yn gobeithio, os yw'r cwricwlwm newydd yn gwella profiadau plant a phobl ifanc o'r ysgol, y bydd hyn "yn ei dro yn gwella presenoldeb disgyblion." Nododd fod ysgolion sydd wedi "rhoi sylw arbennig i'w cynnig cwricwlwm" â lefelau presenoldeb gwell. Roedd yn credu y byddai cynnig 14-16 wedi'i ail-lunio hefyd yn cynnwys "cymwysterau a fydd yn debygol o apelio'n arbennig at y dysgwyr hynny y mae eu presenoldeb yn tueddu i fod yn waeth."¹⁸⁷ Tynnodd Estyn sylw bod y cwricwlwm ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11 wedi "culhau dros y blynyddoedd" a bod yr opsiynau "wedi cwtdogi dros amser". Mae hwn wedi bod yn fater penodol ar gyfer cyrsiau galwedigaethol sy'n "gallu bod yn ddrutach i'w darparu ...".¹⁸⁸

155. Roedd y Comisiynydd Plant o'r farn y bydd "gweithredu [yn] llawn" y dull ysgol gyfan yn galluogi dull amlddisgyblaethol o ran cymorth, a fydd yn helpu gyda phresenoldeb yn yr ysgol.¹⁸⁹ Dywedodd yr Athro Ann John ei bod yn bwysig sicrhau bod cydraddoldeb darpariaeth

¹⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PA54, Cymwysterau Cymru

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 204

¹⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

ac amgylchedd a chyfleoedd i'r holl ysgolion. Tynnodd sylw y gall fod yn fwy heriol i bobl o gymunedau difreintiedig gael mynediad at wasanaethau cymorth.¹⁹⁰

156. Lleisiodd yr undebau addysg nodyn o rybudd. Dywedodd NASUWT Cymru mai dim ond os cânt eu cyflwyno mewn modd sydd wedi'i gynllunio'n dda ac os bydd digon o adnoddau y bydd y diwygiadau hyn yn effeithiol ac na fydd staff addysgu sydd dan straen ac wedi blino'n lân yn gallu gwneud hyn yn effeithiol.¹⁹¹ Mae'n pryderu y gallai diwygiadau yn y tymor byr danseilio gwaith i fynd i'r afael ag absenoldeb oherwydd y cynnydd yn llwyth gwaith staff heb adnoddau parhaus ychwanegol neu gydnabyddiaeth.¹⁹² Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod angen i Lywodraeth Cymru gydnabod bod ysgolion yn brwydro'n groes i lif o aflonyddwch parhaus ar hyn o bryd. Dywedodd na ddylai'r Llywodraeth fod yn pentyrru mwy o ddiwygiadau i ysgolion yn barhaus. Galwodd am ffocws ar sicrhau bod plant yn dychwelyd i ysgolion fel bod eu llesiant cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol yn ôl fel yr oedd heb yr holl bethau eraill hyn yn y system yn tynnu sylw.¹⁹³

157. Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru, gan ddweud bod angen disgwyliadau realistig. Galwodd i absenoldeb disgyblion fod yn flaenoriaeth, yr unig ffocws, ym maes addysg oherwydd na all diwygiadau gael effaith os nad yw plant yn yr ysgol.¹⁹⁴ Dywedodd y NEU mai megis dechrau yw'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar hyn o bryd ac na fydd addysgu ar gyfer arholiadau'n dechrau am flynyddoedd.¹⁹⁵ Dywedodd UCAC fod gormod o ddibyniaeth ar y cwricwlwm newydd, gan dynnu sylw bod "cwricwlwm eang yn barod mewn ysgolion."¹⁹⁶

158. Dywedodd y NEU ei bod yn bwysig nad yw cwricwlwm dysgu drwy brofiad â'r holl nodweddion yn arwain at fwy o gost i blant fynd i'r ysgol. Dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau bod mynediad cyfartal at y cwricwlwm.¹⁹⁷ Mae hyn yn cysylltu'n ôl â phryderon am gost mynd i'r ysgol, rydym yn edrych arni ym Mhennod 1.

159. Wrth ystyried effaith y diwygiadau addysg presennol mewn perthynas ag absenoldeb disgyblion, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 287-288

¹⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

¹⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

¹⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 61

¹⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 66

¹⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 94

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 92

¹⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 95

"Y pwynt cyntaf yw, o ran deddfu a chraffu a'r broses o ddylunio polisi, mae temtasiwn ambell waith i edrych ar y pethau yma ar wahân. Ond, ym mywyd yr ysgol, rydych chi'n profi'r pethau yma ar y cyd, onid ydych chi, ac mae hynny'n gallu bod yn heriol, wrth gwrs, ac mae'n bwysig ein bod ni wastad yn cadw llygad ar hynny. Ond, y cyfle yw ein bod ni'n defnyddio'r diwygiadau yma i ateb mwy nag un her. Felly, os edrychwch chi ar gyd-destun y cwricwlwm, rwy'n gwbl ffyddiog, yn sicr o drafod gyda phenaethiaid sydd yn frwdfrydig dros y cwricwlwm newydd, ei fod yn gyfle, fel y gwnes i sôn yn fras ar y cychwyn, i allu ailgydio dychymyg rhai disgyblion mewn bywyd ysgol. Holl bwrpas y cwricwlwm newydd yw llwybr bespoke, os hoffwch chi, i'r dysgwr, ac mae hynny'n mynd i roi cyfle i allu ailgydio dychymyg y rheini sydd efallai wedi ffeindio bod yr ysgol yn her. Mae hynny'n rhan bwysig o edrych ar y darlun cyfan.

*O ran diwygiadau anghenion ychwanegol, eto, mae hwnnw'n golygu bod cynllun unigol, pwrpasol i'r unigolyn, ac mae hwnnw yn debygol eto o'n galluogi ni i fod yn fwy llwyddiannus i annog pobl nôl. Ond mae'n rhaid edrych ar bopeth ar y cyd. Fel y cwestiwn yn gynharach, os nad ydych chi yn yr ysgol, dych chi ddim yn mynd i allu manteisio ar y cynnig ehangach yma, felly dyna pam mae e mor bwysig."*¹⁹⁸

160. Dywedodd y Gweinidog fod sicrhau bod cwricwlwm yn cynnig pynciau galwedigaethol yn debygol o wella presenoldeb ac ymddygiad rhai dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fel arall. Dywedodd fod yn rhaid i gynnis Cyfnod Allweddol 4 lleol gynnwys o leiaf dri chymwyster galwedigaethol i bobl cyn-16 a phum cymhwyster galwedigaethol i bobl ôl-16. Dywedodd y bydd y cwricwlwm newydd yn cynyddu'r pwyslais ar sgiliau am oes, ac y bydd yn cynnig:

*"... a very good opportunity to re-engage learners who otherwise might be disengaged, just because of the tailored, bespoke, learner-centred way in which it's designed. So, we mustn't put all our weight on that, because there is a wide range of things that we need to do, but I think that will be a step change in how we can go about re-engaging learners with the life of the school."*¹⁹⁹

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 82

¹⁹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 20-21

Diffiniad Llywodraeth Cymru o absenoldeb cyson

161. Yng Nghymru, diffinnir absenoldeb cyson ar hyn o bryd fel presenoldeb llai na 80 y cant (absenoldeb mwy nag 20 y cant). Mae hyn yn cyferbynnu â Gogledd Iwerddon, lle y'i diffinnir fel llai nag 85 y cant; a Lloegr, lle y'i diffinnir fel llai na 90 y cant. Nododd yr adolygiad y cyflwynwyd "dadleuon cryf" y gallai cysoni'r diffiniad â'r naill un o'r rhain "arwain at ymyrraeth gynharach a chanlyniadau gwell."²⁰⁰ Tynnodd yr Athro Ann John sylw at adroddiad Estyn a ddangosodd gysylltiad cryf rhwng absenoldeb mwy na 10 y cant ac, yn ei barn hi, y ffaith nad yw mwy na 40 y cant o blant yn cyflawni graddau A i C yn eu TGAU.²⁰¹ At hynny, dywedodd y Comisiynydd Plant y byddai cael trothwy is o fudd pe bai'n arwain at ymyriadau cynharach.²⁰²

162. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod y trothwyon ar gyfer ymyrryd wedi'u codi, fel y nodwyd mewn un achos, fel bod angen 10 neu fwy o ddiwrnodau olynol cyn ymyrryd. Gall dysgwr o dan y radar hwn fod yn bresennol ar ddau ddiwrnod yr wythnos yn unig heb gael cymorth ac na fydd dim yn deillio o hynny. Mae angen dull cenedlaethol at ddibenion diffinio pryd y dylid cynnal ymyriadau.²⁰³ Galwodd am drothwyon ymyrryd cyson a diffiniadau o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson.²⁰⁴ Galwodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru am gysondeb hefyd, gan ddweud nad yw'n deg bod trothwyon cymorth gwahanol i ddysgwyr ar draws Cymru.²⁰⁵ Dywedodd Estyn y gall yr anghysondeb hwn ddeillio o'r ystod o gymorth awdurdod lleol sydd ar gael neu a yw ysgol yn gwneud ei threfniadau ei hun ar gyfer cymorth lles.²⁰⁶

163. At hynny, dywedodd Estyn y bu'n rhaid i awdurdodau lleol newid y trothwyon ar gyfer ymgysylltu o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol mewn absenoldeb. Mae hyn wedi golygu bod cymorth ar gael i'r rhai â'r presenoldeb isaf yn unig ac nid yw pawb yn bodloni'r diffiniad presennol. Dywedodd nad yw ysgolion yn gallu gwneud yn iawn am y diffyg capasiti yng ngwasanaethau awdurdod lleol. Mae hyn hefyd yn golygu bod disgyblion a fyddai wedi'u hadnabod yn flaenorol o bosibl yn colli cymorth neu'n cael llai o gymorth.²⁰⁷

164. Cododd NASUWT bryderon bod trothwy yn dod yn ddyhead ar gyfer presenoldeb, a allai greu diwylliant bod abresenoldeb yn dderbyniol ar yr amod bod y trothwy hwn yn cael ei

²⁰⁰ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

²⁰¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 254

²⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 131

²⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA18, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

²⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 70-71

²⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

²⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 221

²⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

gyrraedd.²⁰⁸ Cytunodd Estyn y gall dewis un dangosydd weithiau sbarduno ymddygiadau nad ydynt o fudd. Dywedodd ei bod yn bwysig ystyried cyd-destun penodol y teulu ac amgylchiadau'r plentyn i sicrhau bod cymorth wedi'i deilwrio yn ôl hynny.²⁰⁹

165. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y diffiniad hwn yn "fesur pwysig". Roedd y Gweinidog yn credu ei bod yn "werth ystyried gosod trothwy is ar gyfer ymyrryd, a fyddai'n mynd law yn llaw â mwy o gymorth ar gyfer y gwasanaethau hyn."²¹⁰

Hysbysiadau Cosb Benodedig

166. Ers 2013, mae awdurdodau lleol wedi gallu cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i rieni am absenoldeb anawdurdodedig rheolaidd eu plant. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu cod ymddygiad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig. Yn ystod y pandemig, dywedodd Llywodraeth Cymru mai ei barn hi oedd na fyddai'n briodol cyflwyno hysbysiad cosb benodedig na dwyn achos am absenoldeb o'r ysgol. Newidiodd y cyngor hwn ym mis Mai 2022.

167. Clywsom dystiolaeth gymysg o ran effeithiolrwydd hysbysiadau cosb benodedig. Ond roedd bron pob un a fyfyrdd ar eu defnydd yn credu mai pan fetho popeth arall y dylent fod ar gael.

168. Cododd awdurdodau lleol bryderon ynglŷn ag amwysedd rhwng canllawiau Llywodraeth Cymru ar eu defnydd. Dywedodd Cyngor Casnewydd fod canllawiau Llywodraeth Cymru, ar adegau amrywiol yn ystod y pandemig, wedi gwanhau sefyllfa ymyriadau awdurdod lleol. Yn benodol:

*"... at the time of writing, the Minister's statement on 3rd May 2022 created ambiguity around the use of FPN's. The statement refers both to LAs using 'in only the most extreme cases' – an area normally reserved for prosecution cases and not FPN's - whilst simultaneously pointing to the immediate reintroduction of the 2013 guidance. The 2013 guidance states 'penalty notices will be most effective when issued for less entrenched attendance issues'. This has left LAs in an uncomfortable position knowing whether to press forward with the use of FPN's."*²¹¹

²⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 122

²⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 221

²¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA45, Cyngor Dinas Casnewydd

169. Roedd awdurdodau lleol eraill hefyd â'r pryderon hyn, gan gynnwys Cyngor Bro Morgannwg²¹² a Chyngor Sir Caerfyrddin.²¹³ Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg fod gwahardd y defnydd o hysbysiadau cosb benodedig wedi golygu nad oedd modd cosbi absenoldeb, hyd yn oed pan ddychwelodd yr ysgolion. Dywedodd fod hyn yn effeithio ar ystod eang o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai a oedd yn teimlo bod agwedd fwy hamddenol o ran presenoldeb yn gyffredinol yn dderbyniol, yn ogystal â'r rhai â phresenoldeb gwael cyn y pandemig.²¹⁴

170. Dywedodd pennaeth ysgol uwchradd ei fod yn ansicr eu bod yn effeithiol, a'u bod yn aml yn targedu'r disgyblion/teuluoedd anghywir.²¹⁵ Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru mai dim ond pan fetho popeth arall y dylent gael eu defnyddio, gan amau eu heffeithiolrwydd fel arf i fynd i'r afael ag absenoldeb. Dywedodd y dylai plant gael eu hannog, yn hytrach na'u cymell, i fynd i'r ysgol oherwydd y gall yr olaf warthnodi absenoldeb.²¹⁶ Dywedodd y NEU fod y pwyslais o'r newydd ar hysbysiadau cosb benodedig yn ddi-fudd, ac roedd yn amau effeithiolrwydd hysbysiadau cosb benodedig fel arf i wella presenoldeb.²¹⁷

171. Dywedodd Barnardo's Cymru er y gall cael hysbysiad cosb benodedig, neu'r bygythiad o gael un, helpu rhai teuluoedd i wella presenoldeb, nad yw mor llwyddiannus yn aml wrth ysgogi teuluoedd i gynnal y gwelliant. Soniodd am weithio gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ym Merthyr Tudful, er mwyn ymweld â theuluoedd pan fo plentyn yn absennol. Dywedodd fod hyn wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai achosion, ond i eraill mae'r bygythiad o hysbysiadau cosb benodedig neu gynnwys yr heddlu yn dwysáu'r heriau y mae'r teulu eisoes yn eu hwynebu – iechyd meddwl rhieni, iechyd meddwl plant, problemau ariannol a llawer mwy. Ychwanegodd fod rhai teuluoedd yn teimlo eu bod wedi'u gorfodi i addysgu yn y cartref er mwyn osgoi dirwy neu achos troseddol.²¹⁸ At hynny, dywedodd Parentkind y gall y defnydd o hysbysiadau cosb benodedig achosi newid o ysgol fel lle dysgu yn unig, i fod yn gorff lle y cyflwynir dirwyon a all achosi chwalfa ddifrifol yn y berthynas rhwng y cartref a'r ysgol.²¹⁹

172. Rhybuddiodd Comisiynydd Plant Cymru yn erbyn y defnydd o fesurau cosbol. Dywedodd mai "pan fetho popeth arall" yn unig y dylent fod ar gael pan fo pob ymgais arall i ymgysylltu wedi methu. Dywedodd fod pobl yn:

²¹² [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg](#)

²¹³ [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA66, Cyngor Sir Caerfyrddin](#)

²¹⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg](#)

²¹⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA5, Pennaeth, Ysgol Uwchradd](#)

²¹⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru](#)

²¹⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA60, Undeb Addysg Cenedlaethol](#)

²¹⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA33, Barnardo's Cymru](#)

²¹⁹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, PA61, Parentkind](#)

*"ni ddylid byth ddefnyddio rhybuddion cosb benodol neu orchmynion presenoldeb ysgol yn ynysig. Rhaid iddynt fynd law yn llaw â phecyn o gefnogaeth, ac elfen allweddol o hynny fydd siarad â'r teulu a'r plentyn, cymryd amser i ddeall y rhesymau am yr absenoldeb, a rhoi'r gefnogaeth gywir yn ei lle ar gyfer y plentyn dan sylw."*²²⁰

173. Pan drafodwyd hysbysiadau cosb benodedig yn ystod ein hymgysylltiad â theuluoedd a gweithwyr cymorth, roedd y mwyafrif yn teimlo bod y defnydd yn annheg. Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai y gwnaethom siarad â hwy wedi cael dirwy na bygythiad o ddirwy ond, o'r rhai a oedd wedi, roeddent teimlo y bu'n ddiangen oherwydd bod eu plentyn yn cael mynediad at wasanaethau ADY neu CAHMS neu'n aros am asesiadau. Roedd hyn yn ychwanegu at sefyllfa a oedd eisoes yn llawn straen, ac roeddent yn teimlo ei bod yn anghyfiawn o gofio eu bod am i'w plentyn naill ai ddychwelyd i'r ysgol neu gael cymorth.

*"Rwy'n rhiant sengl ac eisoes wedi gorfod torri fy oriau gwaith i gefnogi fy merch. Byddai cael dirwy yn ddiwedd arnaf ac yn gwneud i mi deimlo mod i'n cael fy nghosbi, fel pe bawn i wedi gwneud rhywbeth o'i le."*²²¹

174. Dywedodd undebau addysg megis Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru²²² a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru²²³ mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio dirwyon. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru mai prin yw'r darnau o gyfraith sydd heb gosb ynghlwm os na chânt eu dilyn. Ailadroddodd y ddau ohonynt bwysigrwydd cefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n achosi'r absenoldeb. Mynegodd y NEU amheuan hyd yn oed os ydynt ond yn cael eu defnyddio pan fetho popeth arall.²²⁴ Soniodd NASUWT Cymru amdanynt fel yr opsiwn niwclear i'w gymryd dim ond pan fo pob mesur rhesymol arall wedi'i gymryd.²²⁵ Roedd Estyn hefyd o'r farn mai dim ond pan fetho popeth arall y dylent gael eu defnyddio. Dywedodd y gallent fod yn briodol dan amgylchiadau pan fydd yr holl opsiynau wedi'u dihysbyddu gan yr ysgol a gwasanaethau eraill.²²⁶

175. Dywedodd y Gweinidog yr ystyrir y defnydd o hysbysiadau cosb benodedig fel rhan o'r adolygiad ehangach o fframwaith presenoldeb Cymru gyfan. Dywedodd fod eu rôl yn

²²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

²²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldeb disgyblion – Canfyddiadau gwaith ymgysylltu, Mehefin 2022

²²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 96

²²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

²²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 120

²²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 132

²²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 228

gyfyngedig ar hyn o bryd, mai dim ond pan fetho popeth arall ac yn yr achosion mwyaf eithafol y dylid eu defnyddio. Ond, dan yr amgylchiadau hynny, roedd yn credu bod rôl iddynt.²²⁷

Dysgu cyfunol a hyblyg

176. Roedd gan grwpiau gwahanol farn wahanol ynghylch i ba raddau y dylai ac y gallai dysgu cyfunol a hyblyg barhau i fod yn rhan o'r pecyn a gynigir i ddysgwyr, a sut y gall hyn helpu i gefnogi presenoldeb disgyblion ac ymgysylltu.

177. Roedd yr undebau addysg yn glir iawn yn eu hamheuron ynglŷn â'r cymhelliant ar gyfer mwy o ddysgu cyfunol. Pwysleisiodd pob un ohonynt natur statudol addysg ysgol. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau wrthym na all dim byd gymryd lle dysgu wyneb yn wyneb,²²⁸ a dywedodd UCAC mai ei "weledigaeth" oedd i ddisgyblion fod yn ôl yn yr ystafell ddosbarth, "dim syniad o ddysgu hybrid ...".²²⁹

178. Roedd nifer o resymau yn sail i'w pryderon, gan gynnwys sicrhau darpariaeth addysg o'r ansawdd gorau, a'r buddion ehangach i'r dysgwr a geir o fynd i'r ysgol o ran cyrhaeddiad a llesiant meddyliol. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru y canlynol wrthym:

*"... there is no replacement for being in school with your peers, with those teachers in front of you, and I think we need to make sure that the messaging around that is absolutely clear. There is very clear evidence that the best place for learners is in the classroom. That's not just about educational attainment, but also for their mental health and social well-being. I think what we need to be clear about is that the statutory obligation is that those children are back in school in the classroom, and what we don't want to be is a victim of our own success in certain circumstances where schools have been very good at offering that at-home provision and support for learners, and so therefore people think that is now an expectation."*²³⁰

179. Disgrifiodd y NEU yr heriau cydbwysu dysgu o bell â chyfrifoldebau addysgu ystafell ddosbarth, gan ddweud nad dim ond mater o addysgu gwers ydoedd a bod rhai dysgwyr yn ymuno'n electronig:

²²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 91

²²⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 9

²²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

²³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

*"It's not necessarily that what you teach in the classroom is transferrable to home learning, particularly for your practical subjects— ... It's very difficult. So, teachers are having to try and think of additional things that they need to provide to these learners in these environments ... becoming more of a workload issue ... children that are working at home require the support of the teacher, that verbal conversation with them about what they're doing well and how they can improve. So, that takes that extra time as well, which is what you do in the classroom when you're teaching; you do speak to the students there and then, and if a teacher can't do that with the online learning, then those children are not receiving their full opportunity of how they can improve—they're missing that part of the learning experience."*²³¹

180. Cododd holl undebau'r athrawon gapasiti'r gweithlu. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru fod y cynnig dysgu o bell yn ystod y pandemig wedi achosi straen enfawr ar y gweithlu, a bod athrawon wedi gwneud eu gorau glas i ddysgu o bell oherwydd nad oedd opsiwn arall. Dywedodd nad yw'n ffordd gynaliadwy o addysgu a dysgu ac mai dim ond ar gyfer amgylchiadau brys ydoedd. Galwodd am negeseuon clir mai'r lle gorau i ddysgwyr yw yn ôl yn yr ystafell ddosbarth.²³²

181. Galwodd NASUWT Cymru am adolygiad i sut y rheolir y ddarpariaeth hon. Fel Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru, pwysleisiodd gyd-destun argyfwng cenedlaethol y pandemig. Dywedodd fod athrawon yn cael trafferth cyflwyno dysgu cyfunol, ac nad yw'n fodel cynaliadwy heb adolygiad llawn o drefniadau staffio a disgwyliadau. Nododd ganfyddiadau Arolwg y Cwestiwn Mawr:

"... 27% of respondents were expected to simultaneously provide remote education and traditional classroom teaching whilst other teachers were expected to provide additional resources for those who were learning remotely. 86% of respondents providing remote learning were expected to do this with no adjustment to their pre-existing workload."

*87% of respondents said their workload in the previous 12 months had increased, with 58% saying it had increased significantly. 82% of respondents reported that their job adversely affected their mental health, with workload being the most common reason."*²³³

²³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 25

²³² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

²³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

182. At hynny, pwysleisiodd NASUWT Cymru fod y system addysg gyfan wedi'i dylunio ar sail darparu addysg yn yr ysgol. Dywedodd, os yw Llywodraeth Cymru am barhau i gefnogi dysgu cyfunol, y byddai angen buddsoddiad ychwanegol, yn ogystal ag adolygiad i sut y gellir cyflwyno hyn, oherwydd nad yw'r system bresennol yn gynaliadwy.²³⁴

183. At hynny, cododd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru "nifer o heriau" o ran monitro dysgu o bell.²³⁵

184. Eto, clywsom gan eraill y gall cynnig dysgu cyfunol helpu i gynnal presenoldeb yn yr ysgol a lleihau'r risg o ddewis peidio â chymryd rhan yn y system ysgol yn gyfan gwbl. Dywedodd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod y cyfleoedd hyn o bosibl wedi "bod o fantais i rai dysgwyr", yn enwedig y rhai â gorbryder a ffobia ysgol.²³⁶ Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg fod angen newid yn y naratif ynghylch addysg o un ateb sy'n addas i bawb yn seiliedig ar bresenoldeb, gan awgrymu y gallai opsiynau megis dysgu o bell, hyblyg, pwrpasol neu hybrid oll helpu i atal rhagor o ddisgyblion rhag mynd i addysg ddewisol yn y cartref a/neu uwchgyfeirio achosion ADY yn ddiweddarach mewn triwlynys.²³⁷

185. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth y canlynol:

*"Flexi-schooling can be a way of providing education in school, with social interaction with peers, learning vital skills and direct teaching from teachers, combined with learning in the less stressful home environment."*²³⁸

186. Dywedodd un o'r unigolion a ymatebodd y canlynol wrthym:

*"Being able to offer alternatives learning opportunities or accept a more flexible approach to schooling would potentially engage learners more and encourage them positively re future aspirations."*²³⁹

187. Dywedodd y Comisiynydd Plant hefyd, drwy raglen cyfranogiad ei swyddfa, y bu arwydd bod trefniadau addysgu hyblyg, yn achos rhai plant, yn "gallu helpu i gynnal eu diddordeb" yn eu hysgol ac osgoi dadgofrestru. Mae teuluoedd wedi adrodd bod hyn wedi galluogi eu plentyn i ymdopi'n well yn amgylchedd yr ysgol a'u bod yn "fwy tebygol o eisiau mynychu'r ysgol". Mae

²³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 27

²³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA55, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

²³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA55, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

²³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

²³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA22, Unigolyn

rhai teuluoedd wedi dweud y byddai eu plentyn wedi'i ddadgofrestru heb yr hyblygrwydd hwn. Cydnabu fod rhai o'r rhwystrau i ddarparu'r math hwn o hyblygrwydd wedi cynnwys:

"llwyth gwaith proffesiynol i athrawon, y modd y mae absenoldeb yn cael ei fonitro a'i adrodd, a hefyd bryderon ynghylch cyfrifoldebau diogelu, yn benodol, yr angen am sicrhau trefniadau diogelu ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd â threfniadau addysgu hyblyg pan fyddan nhw'n cael eu haddysgu oddi ar y safle, ond wedi'u cofrestru'n ddisgyblion yn y lleoliad."

Fodd bynnag, roedd yn credu bod yr adolygiad ac ailddatblygu canllawiau presenoldeb yn "gyfle i weithio trwy rai elfennau o hyn, fel bod eglurder ynghylch sut mae diogelu'n cael ei sicrhau." Dywedodd hefyd y dylai'r trefniadau addysgu hyblyg hyn gael eu "hadolygu'n rheolaidd" i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y plentyn, ac er eu lles pennaf.²⁴⁰

188. Pan drafodwyd dysgu cyfunol â'r Gweinidog, dywedodd fod y Llywodraeth "wedi ymrwymo" i edrych ar "ffordd strategol o fynd i'r afael â dysgu digidol". Dywedodd wrthym am y buddsoddiad sydd eisoes wedi'i ddarparu ar gyfer offer, sef tua £180 miliwn o gyllid hyd yn hyn. Dywedodd mai cefnogi'r gweithlu oedd yr "her arall", a bod angen i'r pwyslais newid o gyflenwi offer i hyn. Dywedodd y byddai'r gwaith hwn yn "caniatáu i ni edrych mewn ffordd amgen, neu ehangach, yn sicr, ar rôl ddigidol yn y cwricwlwm yn ehangach, ond yn benodol yn y cyd-destun hwn, i allu annog plant nôl i'r ysgol."²⁴¹

189. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd at y "Strategaeth Dysgu Cyfunol i Gymru" sydd wrthi'n cael ei datblygu. Dywedodd y byddai'r strategaeth yn:

*"... cael ei hategu gan ddeunyddiau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Bydd hyn yn sicrhau bod ymarferwyr a dysgwyr yn cael eu cefnogi'n llawn ac yn parhau i allu cael gafael ar adnoddau o'r ansawdd uchaf yn yr hirdymor."*²⁴²

190. Dywedodd y Gweinidog hefyd, pan fo trefniadau dysgu hyblyg wedi'u rhoi ar waith, na fyddai'n cefnogi dull hyblyg sy'n mynd â'r amser sydd gan bobl ifanc ar gyfer egwyl. Dywedodd na ddylai newidiadau i amserlen gyfaddawdu gallu'r ysgol i gyflwyno ei chwricwlwm ac y dylid gwneud hynny drwy ymgynghori â rhieni.²⁴³

²⁴⁰ Gwybodaeth ychwanegol – Comisiynydd Plant Cymru

²⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 71-73

²⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 89

Capasiti staffio

191. Mae'r adolygiad yn egluro bod capasiti staff ac adnoddau'n un o'r rhwystrau mwyaf i fynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion. Mae'n dweud y byddai'r argymhellion a wnaed yn golygu bod angen mewnbwn amser ac ymdrech staff "yn enwedig os ydynt am gael eu gweithredu'n drylwyr ac yn llawn ... yn gyfystyr â chynnydd mewn llwyth gwaith i staff." Mae'n ychwanegu y bu'n anodd gwneud y gwaith hwn oherwydd "[c]apasiti staff cyfyngedig", problem a wnaed yn waeth oherwydd absenoldeb staff yn gysylltiedig â COVID-19, ac anawsterau o ran sicrhau staff cyflenwi. Mae hefyd yn tynnu sylw at gapasiti ar draws y gwasanaethau cymorth ehangach. Mae rhywfaint o waith eisoes ar droed i helpu i fynd i'r afael â'r materion capasiti hyn, megis Gweithgor Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, daw'r adroddiad i'r casgliad mai "[p]rin yw'r atebion cyflym i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau capasiti hyn".²⁴⁴

192. Clywsom hefyd bryderon sylweddol am gapasiti staffio a chydnerthedd i gefnogi presenoldeb disgyblion. Roedd rhywfaint o hyn yn benodol wrth gyfeirio at gefnogi dysgu cyfunol a hyblyg, yr ydym yn rhoi sylw iddo yn yr adran flaenorol.

193. Cymharodd NASUWT Cymru y cynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion â'r gostyngiad yn nifer yr athrawon. Dywedodd fod nifer yr athrawon cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng 10 y cant ers 2006, sydd wedi cael effaith sylweddol niweidiol ar gymarebau rhwng disgyblion ac athrawon. Er enghraifft, dywedodd fod argymhellion a wnaed yn yr adolygiad i rannu arfer da yn annigonol os nad oes trefniadau staffio digonol ar waith i gynnal yr arfer hwn.²⁴⁵ Tynnodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru sylw hefyd at effaith y diwygiadau yn pentyrru ar weithlu sydd eisoes yn flinedig ac yn cael ei dynnu i bob cyfeiriad, a'r cyfan mewn cymysgedd o athrawon a thimau uwch-arweinwyr sydd wedi ymlâdd, y mae llawer ohonynt yn dal i wella o ôl-ffeithiau COVID.²⁴⁶

194. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru mai'r diffyg capasiti yw lle y mae'r system yn chwalu. Dywedodd fod ysgolion yn mynd i drafferth anhygoel i ymgysylltu â theuluoedd a darparu cymorth, ond bod anghysondeb ar draws Cymru o ran y cymorth a gynigir. Dywedodd fod diffyg adnoddau'n golygu nad oedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn

²⁴⁴ Llywodraeth Cymru, Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion, Chwefror 2022

²⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

²⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA18, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

gallu ymgysylltu â theuluoedd.²⁴⁷ Galwodd am ddiwedd i system cymorth sydd fel loteri cod post.²⁴⁸

195. Cytunodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru mai adnoddau oedd y broblem fwyaf.²⁴⁹ Fel Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru, dywedodd na ddylai ddibynnu ar sefyllfa ariannu ysgol unigol os oedd ganddi fynediad at weithwyr cymorth neu gwnselwyr.²⁵⁰ Soniodd hefyd am feintiau dosbarthiadau mawr sy'n arwain at gyfran uwch o blant mewn ystafell ddosbarth unigol sydd o bosibl yn cael trafferth a bod arnynt angen cymorth.²⁵¹

196. Pwysleisiodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru bwysigrwydd bwrw ymlaen â'r mater hwn, oherwydd y canlyniadau pellgyrhaeddol i unigolion ac ar gyfer yr economi ehangach:

"They simply can't fix this without having an army of people who are well-resourced and well-trained to knock on doors and get kids back in. I know Welsh Government has done quite a lot of work towards this, but if these kids do not get back into school quickly, then they could be facing 30 years of economic inactivity. Now, that's not good for anyone, and we do need to get resources absolutely front and foremost within all of this. What's more important than getting kids back into school, as educationalists?"²⁵²

197. Dywedodd cynrychiolydd UCAC, sydd hefyd yn bennaeth ysgol gynradd, fod "cael y capasiti yna wedi bod yn anodd iawn". Roedd ei ysgol wedi elwa ar y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ond dywedodd fod yn rhaid recriwtio cyn bod yn sicr y byddai'r cyllid yn cael ei roi. Mae hefyd wedi defnyddio'r prosiect pontio rhwng cynradd ac uwchradd, a'r rhaglen athrawon newydd gymhwyso a ariennir (gweler paragraff 17). Galwodd y cyllid yn "allweddol" ond bod recriwtio staff i'w swyddi "wedi bod yn broblem enfawr".²⁵³

198. Croesawodd NASUWT Cymru gyllid y cynllun COVID-19 Adnewyddu a Diwygio, ond nododd mai cyllid tymor byr yw hwn, ac nad oes ymrwymiad ariannol wedi'i wneud eto i gynyddu capasiti yn y gweithlu addysgu yn y tymor hir.²⁵⁴

²⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 79-80

²⁴⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 48

²⁴⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 86

²⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

²⁵¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

²⁵² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 45

²⁵³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 114

²⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

199. Nid yr undebau addysg yn unig a bwysleisiodd y materion ynghylch capasiti. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod mynd i'r afael ag absenoldeb yn waith dwys iawn, â goblygiadau capasiti sylweddol. Wrth fynd i'r afael â'r mater, dywedodd fod angen ystyried yr amgylchiadau anodd y mae plant, teuluoedd, athrawon ac ysgolion ynddynt.²⁵⁵ Nododd Plant yng Nghymru bryderon hefyd am y capasiti ar draws y system addysg.²⁵⁶ A dywedodd Rhwyd Arall fod "hyd yn oed yr ysgolion gorau yn ei chael hi'n anodd cyfarfod anghenion pob plentyn oherwydd diffyg adnoddau."²⁵⁷

200. Soniodd Estyn fod angen cynyddu capasiti yn y gwasanaethau arbenigol ehangach sy'n cefnogi dysgwyr ac ysgolion. Soniodd am y pwysau ar wasanaethau lles addysg, sydd wedi arwain at wasanaethau o'r fath yn ailaddasu ac yn ailffocysu eu hadnoddau i'r disgyblion mwyaf agored i niwed, sy'n golygu y bydd disgyblion sydd, o bosibl, wedi cael cymorth o'r blaen naill ai'n cael llai o gymorth, neu mewn rhai achosion, na chânt gymorth o gwbl. Mae capasiti cyfyngedig yn y gwasanaethau hyn wedyn yn cael effaith ar ysgolion, sy'n gorfod ceisio lliniaru'r diffyg cymorth allanol hwn, gan ddwysáu materion capasiti presennol mewn ysgolion. Dywedodd Estyn ei bod yn heriol iawn cynyddu capasiti gwasanaethau cymorth yn gyflym.²⁵⁸

201. Cytunodd Cyngor Sir Caerfyrddin ag Estyn ynglŷn â'r capasiti mewn awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion. Dywedodd ei bod yn bosibl y bydd angen cyllid tymor byr i dymor canolig gan ysgolion, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru i feithrin capasiti o'r gwaelod i fyny er mwyn cefnogi dysgwyr nad oedd arnynt angen cymorth o bosibl cyn y pandemig, ond y mae eu presenoldeb wedi lleihau.²⁵⁹

202. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn ymwybodol bod ysgolion wedi bod yn defnyddio'r cyllid ychwanegol a oedd ar gael iddynt benodi gweithwyr cymorth addysg, sy'n gallu arwain ar gymorth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol. Mae hyn wedi galluogi ehangu'r capasiti i gryfhau'r systemau cymorth bugeiliol presennol.²⁶⁰ Fodd bynnag, ychwanegodd, er bod y setliad cyllid yn y flwyddyn ariannol bresennol yn dda iawn, ei bod yn debygol o fod yn heriol yn y blynyddoedd dilynol. Bydd y cyllid £3.84 miliwn i weithwyr cymorth addysg yn parhau am y ddwy flynedd nesaf, gan ddarparu tair blynedd o gyllid ar gyfer yr ymyriad hwn.²⁶¹

203. Bydd y cyllid hwn â rôl allweddol o ran cefnogi presenoldeb, yn ôl Llywodraeth Cymru.

²⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 142

²⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

²⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA19, Unigolyn

²⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 211-214

²⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA66, Cyngor Sir Caerfyrddin

²⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 99

²⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

"Gwyddom y gall yr aelodau ychwanegol hyn o staff fod yn adnodd hynod effeithiol mewn ysgolion i estyn allan at rieni a gofawyr a'u cynnwys yn nysgu eu plant.

Rhan fawr o'u rôl yw cefnogi presenoldeb a gweithio gyda theuluoedd i annog eu plant i wella eu presenoldeb ac ailgydio mewn dysgu ar ôl y pandemig. Gwyddom fod athrawon yn aml yn ei chael hi'n anodd estyn allan at deuluoedd oherwydd pwysau gwaith arall a bydd y rolau hyn yn pontio rhwng yr ysgol a'r cartref.

*Bydd y cyllid ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu ysgolion y mae angen capasiti ychwanegol arnynt yn y maes hwn. At hynny, fel rhan o'n gwaith datblygu polisi, byddwn yn cynghori ysgolion ar ymarfer effeithiol swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a'r dysgu proffesiynol ehangach sydd ei angen."*²⁶²

Cyllid Llywodraeth Cymru

204. Yn ogystal â materion capasiti staffio, clywsom nifer o bryderon am yr adnoddau sydd ar gael yn y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau cymorth ehangach i fynd i'r afael â'r ffactorau amlweddol sy'n arwain at absenoldeb disgyblion. Mae hyn yng nghyd-destun ehangach gweithredu diwygiadau addysg mawr mewn ysgolion, yn enwedig y cwricwlwm newydd; newidiadau i'r system ADY a'r dull ysgol gyfan o ran iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Mae hyn i gyd ochr yn ochr ag adferiad y pandemig, ac effaith cyni. Dywedodd Gwasanaethau Addysg Conwy fod angen llawer mwy o adnoddau oherwydd y ddau fater hyn.²⁶³

205. Nododd Llywodraeth Cymru nifer o ffrydiau cyllid gwahanol a fyddai, yn ei barn hi, yn helpu i fynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion. Mae hyn wedi cynnwys:

- £43 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gefnogi gweithredu'r dull ysgol gyfan. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i "feithrin gwydnwch drwy gyflwyno ymyriadau cyffredinol a phenodol mewn ysgolion; hyfforddi staff ysgolion ar les; a sicrhau bod y system ehangach yn gallu cefnogi plant a phobl ifanc drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael ymyriadau amserol sy'n briodol i'w hanghenion";²⁶⁴
- £2.5 miliwn ychwanegol yn 2021-22 i awdurdodau lleol i "ddarparu cymorth emosiynol, iechyd meddwl a lles ychwanegol i bobl ifanc." Y meini prawf

²⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA8, Gwasanaethau Addysg Conwy

²⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

cymhwysedd ar gyfer y cyllid oedd disgwyliad i awdurdodau lleol "weithio gyda gwasanaethau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol, ac ariannu gwasanaethau ychwanegol o'r fath, a darparu cymorth i bobl ifanc â nodweddion gwarchodedig a phobl ifanc mewn ardaloedd anos eu cyrraedd ...".²⁶⁵

- £8.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2020-21 a 2021-22 i gefnogi pontio. Mae'r cyllid hwn ar gael i golegau addysg bellach a dosbarthiadau chwech gefnogi pobl ifanc yn eu camau nesaf, naill ai ym maes addysg neu yrfa.²⁶⁶
- £6.4 miliwn o gyllid Gaeaf Llawn Lles ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-22. "Roedd y fenter hon yn helpu pob dysgwr i fanteisio ar ddarpariaeth lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol ac yn creu mannau diogel ar gyfer chwarae rhydd a gweithgarwch corfforol lle y gallai plant a phobl ifanc feithrin/adfer eu sgiliau cymdeithasol."²⁶⁷
- £3.84 miliwn dros dair blynedd ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd.²⁶⁸

206. Cafodd y cyllid ychwanegol ei groesawu'n gyffredinol. Ond roedd galw am gyllid ychwanegol mewn ystod o feysydd gwahanol. Galwodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru am fwy o gyllid ar gyfer ystod o weithwyr cymorth i helpu i ailintegreiddio ac atgyweirio.²⁶⁹ Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd monitro a gwerthuso'r defnydd o'r cyllid hwn a'i effaith. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth fod angen i'r cyllid ychwanegol ar gyfer ADY gael ei fonitro'n gadarn i sicrhau bod y cyllid hwn yn cyrraedd y plant y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt fwyaf.²⁷⁰

207. Pwysleisiodd CLILC, hyd yn oed gyda chyllid, y gall fod yn "anodd gweithredu" ymyriadau i blant nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Roedd ganddi bryderon hefyd am ddiwedd cyllid yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig arian a ddaeth drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r rhaglenni hyn wedi cynnwys rhai sydd wedi cael "effaith dda a chanlyniadau cadarnhaol" i ymgysylltu â'r rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg na hyfforddiant.²⁷¹

208. Dywedodd y NEU fod awdurdodau lleol wedi'u cyllido'n annigonol ar hyn o bryd i'w helpu i gefnogi ysgolion i fynd i'r afael ag absenoldeb. Roedd y pryderon hyn yn ymestyn y tu hwnt i

²⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA18, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

²⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

²⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA55, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

gyllid ysgolion, ac roeddent hefyd yn cynnwys gwasanaethau cymorth eraill megis gwasanaethau cymdeithasol a CAHMS.²⁷² Tynnodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru sylw at yr ôl-groniad ar gyfer gwasanaethau cymorth a sut y gall hyn effeithio ar ysgolion sy'n darparu cymorth priodol.²⁷³ Dywedodd NASUWT Cymru nad oedd gweithredu'r fframwaith ysgol gyfan yn cyd-fynd â buddsoddiad uwch nac asesiad effaith llwyth gwaith. Roedd yn credu bod y diffyg asesu hwn yn anghyson â chysyniad y dull ysgol gyfan.²⁷⁴

209. Dywedodd y Comisiynydd Plant, hyd yn oed pan fo cyllid ar gael i ddatblygu cymorth mwy teilwredig, personol i blentyn/berson ifanc, y gall recriwtio fod yn her. Soniodd fod awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid adferiad pandemig ar gyfer gweithwyr ieuenctid neu fwy o gymorth bugeiliol gan staff ysgol ond ei bod yn:

*"bosibl, yn sgîl y prinder staff a welwyd ar draws ein sector cyhoeddus, y gall fod yn anodd neilltuo mwy o staff i ddarparu'r gefnogaeth unigol sy'n mynd i'r afael â hyn orau, hyd yn oed o dderbyn cyllid hael."*²⁷⁵

210. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod y swyddogion ymgysylltu sydd wedi'u penodi'n gwneud gwahaniaeth. Dywedodd na ellir neilltuo gormod o arian a gormod o adnoddau at hyn.²⁷⁶ Dywedodd Swyddog Cyswllt â Theuluoedd wrthym yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu ei bod yn cefnogi dau deulu pan ddechreuodd ei rôl cyn y pandemig. Erbyn hyn, mae'n cefnogi 49.²⁷⁷ Soniodd y NEU hefyd am bwysigrwydd cael gweithwyr cymorth pwrpasol, gan ddweud y canlynol:

*"they do need that focused time and we do need a designated person who looks at it, not just for the hour in the morning, but looking at tracking and monitoring, supporting families and challenging where it's needed. Because it is about making the correct referrals and getting the correct engagement and support packages in place for these learners from a very early point, when you can see the decline straight away."*²⁷⁸

²⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA60, Undeb Addysg Cenedlaethol

²⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA18, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

²⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

²⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

²⁷⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 60

²⁷⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldeb disgyblion – Canfyddiadau gwaith ymgysylltu, Mehefin 2022

²⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru ei bod yn bwysig mai'r un bobl yw'r gweithwyr cymorth fel eu bod yn meithrin ymddiriedaeth a chymorth. Dywedodd mai dim ond crafu'r wyneb sy'n bosibl os oes nifer fach o swyddogion ar draws un awdurdod lleol.²⁷⁹

211. Clywsom yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol am y modd y mae rhywfaint o'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i ddefnyddio. Er enghraifft, soniodd Cyngor Bro Morgannwg ei fod wedi defnyddio cyllid er mwyn:

*"deliver LA managed Liaison Engagement officer posts who will act as a bridge between schools, home and the inclusion team. These 6 officers will support school attendance officers and will be trained in mental health first aid, trauma informed schools approaches and a range of engagement and wellbeing strategies."*²⁸⁰

212. Dywedodd Estyn, er bod y cyllid ar gyfer cwnsela wedi cynyddu, fod llai o ddysgwyr wedi cael mynediad at y gwasanaethau cwnsela yn 2020-21 mewn cymhariaeth â'r flwyddyn cyn y pandemig. Dywedodd y canlynol:

"Despite Welsh Government providing an additional £1.25m funding for services in 2020-2021, services in half of local authority areas (11 out of 22) saw a drop in numbers accessing services that year compared to 2019-2020 (partially disrupted by Covid-19), and services in 17/22 areas counselled fewer learners than in 2018-2019 (pre-pandemic). Services in only 1 local authority (Swansea) worked with a notably higher number of learners in 2020-2021 compared to the year pre-pandemic."

*The 2020-2021 figures for the number of learners receiving counselling does not necessarily reflect the demand. Information from services suggests that demand was higher, but services struggled to meet the demand due to the impact of Covid-19 on counsellor availability and operating restrictions."*²⁸¹

213. Pan drafodwyd hyn ag Estyn yn fanylach, dywedodd nad oedd ganddi ddata ar faint o bobl sydd wedi gofyn am wasanaethau cwnsela neu wedi'u hatgyfeirio iddynt. Dywedodd fod amrywioldeb enfawr ar draws Cymru, a'i bod yn ymwybodol o faterion mewn rhai ardaloedd sy'n arwain at nifer isel o bobl ifanc yn cael y gwasanaethau oherwydd nad oes capasiti i gynnig y gwasanaethau i fwy o bobl, nid oherwydd nad yw pobl ifanc yn gwybod amdanynt neu nad

²⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 103

²⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA63, Cyngor Bro Morgannwg

²⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA58, Estyn

ydynt wedi'u hatgyfeirio. Dywedodd mai rhan o'r broblem yw ei bod yn anodd iawn recriwtio cwnselwyr cymwysedig addas:

"Where do you get qualified counsellors from when all local authorities are all looking to increase capacity at the same time in the middle of a crisis, really, where such staff are very much in demand across the whole public?"²⁸²

214. Mynegodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru bryderon hefyd am heriau recriwtio cwnselwyr, gan ddweud ei bod yn swydd grefftus iawn a bod problemau sylweddol yn y system. Dywedodd ei bod yn bwysig i'r strwythur cywir fod ar waith i helpu dysgwyr i ddychwelyd i amgylchedd yr ysgol.²⁸³ Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru â hyn.²⁸⁴

215. Pwysleisiodd y Gweinidog y gallai cyllid ar gyfer y dull ysgol gyfan helpu drwy ymdrin â phryderon cyn bod arnynt angen ymyriad arbenigol. Dywedodd fod cyllid yn y maes hwn wedi'i gynyddu'n sylweddol iawn ac y byddai'n helpu i gefnogi ymyriadau llesiant penodol a chyffredinol.²⁸⁵ At hynny, cydnabu bwysigrwydd staff ysgol wrth gyflawni hyn, a phwysigrwydd eu llesiant eu hunain.²⁸⁶

216. Cydnabu Llywodraeth Cymru rôl bwysig Gwasanaethau Lles Addysg, a dywedodd ei bod yn "ymrwymedig" i rannu arfer gorau ymhlith y gwasanaethau ar draws Cymru er mwyn "sicrhau dull gweithredu mwy cyson a nodi arferion gorau ledled Cymru fel bod yr arferion hyn yn cael eu rhoi ar waith yn fwy cyson."²⁸⁷ Dywedodd nad oes targedau mewn perthynas â'r cyllid ymgysylltu â theuluoedd, ond bod tystiolaeth eisoes bod y rolau hyn yn dwyn ffrwyth oherwydd eu bod yn ymrwymedig i'r swyddogaeth hon. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru am sicrhau y gall mwy o ysgolion gael mynediad at y rolau hyn.²⁸⁸

217. Mewn gohebiaeth, cadarnhaodd fod y cyllid i swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn cael ei "glustnodi er mwyn ehangu darpariaeth swyddogion cyswllt teulu mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig a lle mae problemau presenoldeb yn arbennig o heriol." Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol "rywfaint o ddisgresiwn" o ran sut y mae'r cyllid yn cael ei "ddosrannu er mwyn ymateb i'r angen lleol." Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybodaeth am feini prawf hanfodol a dymunol er mwyn helpu i dargedu'r cymorth hwn. At

²⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 217-218

²⁸³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

²⁸⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 54

²⁸⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 7

²⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

²⁸⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 113-114

hynny, dywedodd fod “gofynion monitro ac adrodd clir” ar gyfer y cyllid; ac y bydd angen i’r ysgolion sy’n cael y cyllid “gydweithio ag ymchwilwyr er mwyn ein helpu i ddeall effaith y cyllid a chreu sylfaen dystiolaeth ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol.”²⁸⁹

218. Gofynnwyd i’r Gweinidog am y cyllid i ehangu’r ddarpariaeth cwnsela, ac yn benodol a allai diffyg mynediad effeithio ar absenoldeb disgyblion. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol o gysylltiad uniongyrchol. Cydnabu fod y gwasanaethau hyn yn boblogaidd ac yn effeithiol, felly dyna’r rheswm dros y cyllid ychwanegol. Fodd bynnag, gwnaeth y pwynt nad yw’r gwasanaethau hyn yn briodol i bawb, gan ddweud ei fod yn ymyriad penodol iawn.²⁹⁰ Cawsom ein hatgoffa bod gan awdurdodau lleol “gyfrifoldeb statudol” i ddarparu gwasanaethau cwnsela. Mae’r cyllid £2.3 miliwn arall er mwyn “cefnogi gwelliannau yn y ddarpariaeth gwnsela a’i hehangu, gan gynnwys estyn cymorth priodol i blant o dan y trothwy Blwyddyn 6 presennol”.²⁹¹

Ein barn ni

Diwygiadau addysg presennol

219. Rydym yn cytuno â’r Gweinidog bod angen i ddisgyblion fod yn yr ysgol er mwyn cael y buddion o’r diwygiadau addysg presennol. Mae gennym ddarn o waith drwy’r Senedd yn edrych ar weithredu diwygiadau addysg yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ystyried effaith y diwygiadau hyn ar bresenoldeb disgyblion dros y blynyddoedd i ddod.

Y diffiniad o absenoldeb cyson

220. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gawsom, rydym yn fodlon ar y diffiniad presennol o absenoldeb cyson. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod angen cymhwyso’n gyson y diffiniad a’r trothwyon ar gyfer ymyrryd ar draws Cymru. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rydym yn poeni am anghysondebau mewn cymorth ar draws Cymru. Mae’n rhaid i ni osgoi loteri cod post, pan fo plentyn â lefel benodol o absenoldeb yn cael cymorth, ond nid yw plentyn mewn awdurdod lleol gwahanol â’r un lefel o absenoldeb yn cael cymorth. Hoffem weld set gyson o lefelau drothwyon ar gyfer ymyrryd ar draws Cymru, ac rydym yn credu y dylid gwneud hyn fel rhan o’r adolygiad parhaus o bolisi a chanllawiau ar bresenoldeb ysgol.

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o’i hadolygiad presennol o bolisi a chanllawiau ar bresenoldeb ysgol, yn cytuno ac yn gosod trothwyon cyson ar gyfer ymyrryd sy’n gymwys ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

²⁸⁹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Medi 2022.

²⁹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 13.

²⁹¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Medi 2022.

Hysbysiadau cosb benodedig

221. Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth lethol a gawsom ysgubol mewn perthynas â'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig, sef mai dim ond pan fetho popeth arall y dylent gael eu defnyddio. Mae'n bwysig bod defnyddio'r abwyd cyn y ffon, ac y darperir cymorth i deuluoedd yn y lle cyntaf. Mae hefyd yn cysylltu â phwysigrwydd sicrhau negeseuon cadarnhaol am bresenoldeb mewn ysgolion - os yw teuluoedd yn gweld gwerth mynd i'r ysgol, byddant mewn sefyllfa well i gefnogi eu plant i fynd i'r ysgol.

Dysgu cyfunol

222. Rydym yn glir mai'r ysgol yw'r lle gorau i'r mwyafrif llethol o ddysgwyr. Ni ddylid ystyried bod mynd i'r ysgol yn opsiynol. Ond i rai dysgwyr, bydd dull dysgu hyblycach yn eu helpu i gynnal ymgysylltiad â'r ysgol, a'u presenoldeb yno. Rydym yn credu y dylid cynnig dysgu cyfunol mewn achosion eithriadol. Gallai enghreifftiau o achosion eithriadol gynnwys cefnogi disgyblion â chyflwr meddygol, neu ofalwyr ifanc. Dylai ysgolion fabwysiadu dull dysgwr yn gyntaf, a chynnig dysgu cyfunol os bydd yn helpu i gefnogi presenoldeb ac ymgysylltiad mwy tymor hir.

223. Rydym yn gwybod bod darparu dysgu cyfunol yn rhoi pwysau ar ysgolion sydd eisoes wedi'u hymestyn yn sylweddol. Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd gan yr undebau addysg nad yw mor syml â ffrydio gwers yn fyw sy'n cael ei chyflwyno mewn ystafell ddosbarth. Mae'n gofyn amser ac arbenigedd i dynnu opsiynau dysgu cyfunol ynghyd. Dyna pam rydym yn credu y dylid cynnig dysgu cyfunol mewn achosion eithriadol yn unig, ac y dylai cyllid fod ar gael i ysgolion sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i'w helpu i gyflwyno hyn ar gyfer yr achosion eithriadol hyn.

Capasiti staffio a chyllid Llywodraeth Cymru

224. Mae'n amlwg bod cyllid ychwanegol wedi'i roi yn y system addysg yn ddiweddar. Fodd bynnag, bu hyn yn rhannol i gefnogi'r system wrth i ddiwygiadau mawr gael eu gweithredu a'u hymwreiddio, a mynd i'r afael ag effaith y pandemig hefyd. Roedd yn amlwg iawn bod pryderon sylweddol am allu'r system i wneud hyn yn llwyddiannus. Rydym hefyd yn ymwybodol o effaith materion capasiti ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymorth a all wedyn effeithio ar allu ysgol i gefnogi eu disgyblion yn ddigonol.

225. Rydym yn nodi y gall fod yn anodd deall sut y mae cyllid o'r fath yn cael ei wario ac effaith gwariant o'r fath. Mae angen gwneud mwy i gynyddu tryloywder cyllid Llywodraeth Cymru, lle y mae'n cael ei wario a'r canlyniadau ar gyfer cyllid o'r fath. Bydd hyn yn helpu gyda gwaith craffu, yn ogystal â helpu i wneud penderfyniadau cyllid yn y dyfodol.

226. Rydym yn poeni'n arbennig am y pwysau ar ysgolion a gwasanaethau cymorth i ddarparu'r cymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol hanfodol ac angenrheidiol i ddisgyblion. Mae hyn yn ymwneud â chael cyllid i ddarparu'r gwasanaethau hyn, yn ogystal â'r pwysau recriwtio. Mae'r rhain yn swyddi crefftus iawn, ac mae galw mawr amdanynt ar draws Cymru.

227. Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r hyn a oedd eisoes yn ddarlun pryderus iawn ar gyfer iechyd meddwl a llesiant ein plant a'n pobl ifanc. Nid yw gwasanaethau a oedd eisoes dan straen cyn y pandemig yn gallu ateb y galw llethol arnynt.

228. Mae'n hanfodol bod gan ysgolion a'r gwasanaethau cymorth ehangach a ddarperir gan awdurdodau lleol, y GIG a'r trydydd sector y nifer gywir o bobl sydd wedi'u cymhwyso a'u hyfforddi'n briodol i helpu i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol a pharhau i fod yn bresennol, gyda'r holl fuddion dilynol a ddaw i lawer o ddisgyblion ysgol.

9. Pa mor effeithiol yw arferion a pholisiau presennol awdurdodau lleol ac ysgolion?

Mae anghysondebau o ran y cymorth a gynnigir gan awdurdodau lleol ac ysgolion ar draws Cymru, ac mae angen mynd i'r afael â'r mater. Mae teuluoedd â rôl hanfodol wrth helpu i wella presenoldeb, ac mae angen cymorth priodol gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

229. Cawsom ein hatgoffa gan yr Athro Ann John na all ysgolion ddatrys yr holl broblemau ond:

*"... they can do things ... the issue that impacts mental health and attendance and exclusion that they can do something about is school climate. And by school climate, what I mean is about connectedness in schools; it's about positive relationships, both between peers and with staff. It's about belonging. And I think if we shift that focus from things like behaviour policies to values and those sorts of things like connectedness that are embodied in the whole-school approach, then we can make progress in this area. It's very difficult for schools and staff without adequate provision ..."*²⁹²

230. Galwodd y Comisiynydd Plant i ysgolion ac awdurdodau lleol gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu dulliau o ymdrin ag absenoldeb. A hynny wrth ddatblygu cynlluniau i ddysgwyr unigol, ond hefyd wrth ddatblygu mentrau ledled yr ysgol. Dywedodd fod "ar blant angen cyfleoedd ar y cyd i ystyried beth fyddai'n cynyddu presenoldeb ac yn helpu lleoliadau i ddatblygu strategaethau cadarnhaol ar draws yr ysgol gyfan."²⁹³

231. Nododd y Comisiynydd Plant brosiect Rwydd Arall fel prosiect effeithiol sydd,

"wedi adrodd am ganlyniadau effeithiol yn sgîl dull person-ganolog o weithio'n ddwys gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ddatgofrestru. Yn ganolog i'r dull gweithredu hwn mae cyfranogiad ystyrlon y person ifanc,

²⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 271

²⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

*cam hanfodol a ddylai fod yn ganolog i bob menter, gyda phlant o bob oed.*²⁹⁴

232. Clywsom hefyd yn uniongyrchol gan Rwydd Arall. Mae'r cynllun peilot hwn wedi bod ar waith ers 2018, ac yn cefnogi pobl ifanc ddosbarth gweithiol sydd mewn perygl o ddadgofrestru o'r ysgol uwchradd. Nodau'r cynllun yw cadw'r bobl ifanc hyn dan gyfrifoldeb adrannau addysg Gwynedd neu Ynys Môn. Dywedodd fod yr holl faterion y mae'n ymdrin â hwy'n rhagfalenu'r pandemig, ond bod y pandemig wedi gwneud rhai materion hirsefydlog yn anoddach. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn dod dan dri grŵp penodol: pobl ifanc ag awtistiaeth; pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl; a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Soniodd y gall gymryd misoedd/blynyddoedd i gefnogi'r rhai y mae'n gweithio gyda hwy i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ond y gwneir hyn drwy sicrhau bod yr asesiadau cywir ar waith, gyda'r cymorth cywir i alluogi'r bobl ifanc i fagu hyder a datblygu sgiliau cyfathrebu, creu rhwydweithiau cymorth newydd a datblygu cydnerthedd.²⁹⁵

233. Dywedodd NASUWT Cymru mai dyma'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wella cyrhaeddiad:

*"one-to-one or small group tutoring, frequent teacher feedback, high expectations, increased instructional time, high dosage tutoring and the use of data to guide instruction. All of these require more teacher input per pupil and more staff-to staff communication in relation to pupils and therefore more teachers."*²⁹⁶

234. Pwysleisiodd Estyn, yn sgil y pandemig, fod arweinwyr ysgol yn dweud eu bod bellach yn deall anghenion ac amgylchiadau'r teuluoedd yn eu cymunedau ysgol yn llawer gwell, a'u bod yn ymgysylltu'n dda â rhieni ar nifer o lefelau gwahanol. Maent hefyd wedi nodi bod gwaith amlasiantaethol cryfach, megis gydag asiantaethau ym maes iechyd, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol, wedi'u helpu i ddarparu dull llawer mwy cydgysylltiedig o gefnogi dysgwyr i wella eu presenoldeb.²⁹⁷

235. Pwysleisiodd Parentkind y pwysigrwydd bod teuluoedd yn ymwneud â datblygu polisiau ysgol. Dywedodd fod ei harolygon o rieni'n dangos yn gyson eu bod am gael mwy o ddweud am addysg eu plentyn. Tynnodd sylw at y Glasbrint ar gyfer Ysgolion sy'n Gyfeillgar i Rieni, sy'n cynnwys sicrhau y caiff llais y rhiant ei glywed pan fydd ysgolion yn gwneud newidiadau sylweddol neu bolisiau sy'n cael eu datblygu a allai gael effaith arbennig ar grŵp penodol.

²⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

²⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA19, Unigolyn

²⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

²⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 226

Dywedodd ei bod yn poeni y gall dulliau ysgolion o ymgynghori â rhieni fod yn anghyson, a'i bod yn hanfodol oherwydd ei bod yn helpu rhieni i gefnogi ysgolion yn fwy effeithiol.²⁹⁸

236. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn “hanfodol” bod gan bob ysgol “bolisi presenoldeb clir” a'i bod yn gofyn i bob ysgol gyhoeddi un. Dylai'r polisiau hyn “nodi dull ysgol gyfan” a dylai fod ganolbwyntio'n benodol ar sut y bydd ysgolion yn cefnogi dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl o fod yn absennol yn gyson. Bydd hefyd yn diwygio ei chanllawiau ac yn egluro ei disgwyliadau o ran y camau gweithredu i'w cymryd yn yr ysgol y dylai ysgolion a chyrrff llywodraethu eu cymryd ar lefel y cymorth y dylid ei roi i ddysgwyr a'u teuluoedd. Fel rhan o hyn, caiff arfer da ei rannu a bydd yn archwilio “ffyrdd cydweithredol o wella presenoldeb a mynediad at ddysgu ymhlith carfanau agored i niwed o ddisgyblion, er enghraifft y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim”.²⁹⁹

Cymorth i deuluoedd

237. Rydym eisoes wedi crybwyll pwysigrwydd cael dull sy'n canolbwyntio ar blant wrth ddatblygu polisiau, a llunio cymorth unigol i helpu plant a phobl ifanc i gynnal presenoldeb yn yr ysgol. Roedd ein tystiolaeth hefyd yn pwysleisio rôl ganolog y teulu wrth gefnogi plant a phobl ifanc yn yr ysgol.

238. Roedd Plant yng Nghymru yn ein hatgoffa bod cartref a chymuned plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar eu cyfleoedd bywyd. Dywedodd y dylai pob ysgol ystyried bod rhieni a theuluoedd yn asedau a'u hannog i gymryd rhan yn nhaith addysg eu plant.³⁰⁰ Dywedodd Estyn hefyd ei bod yn bwysig i ysgolion fod yn ofalus wrth weithio gyda'r teuluoedd, ac ystyried bod angen, o bosibl, i'r ysgol newid y ffordd y mae'n gweithio a deall safbwynt y person ifanc.³⁰¹

239. Dywedodd Lleisiau Rhieni yng Nghymru, y bydd ymgorffori'r Dull Hawliau Plant a ddatblygwyd gan y Comisiynydd Plant a symud y tu hwnt i ddulliau perthynol o weithio ar y cyd â theuluoedd yn arwain at ddeilliannau gwell. Galwodd am symud i ffwrdd o ddulliau cosbi o reoli presenoldeb.³⁰² Dywedodd un ymatebwr i'n hymgynghoriad fod y polisiau ysgol sy'n cosbi plant a phobl ifanc am bresenoldeb gwael yn wrthgynhyrchol.³⁰³

240. Clywsom yn uniongyrchol gan rieni a theuluoedd a oedd wedi cael trafferth cael yr help angenrheidiol i gefnogi presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol. Roedd hyn yn cynnwys un rhiant y

²⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA61, Parentkind

²⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

³⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

³⁰¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 191

³⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA64, Lleisiau Rhieni yng Nghymru

³⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA22, Unigolyn

dosbarthwyd bod ei ferch yn absennol yn gyson, ond bod ganddi salwch tymor hir a oedd yn cynnwys nifer o driniaethau llawfeddygol a derbyniadau brys i'r ysbyty. Dywedodd y rhiant hwn y canlynol wrthym:

"Calling her a 'persistent absentee' set the tone for the utterly inadequate response by her school and local authority ... assumed from the outset took the view that non-attendance was a choice ... No arrangements were made for her education in her absence, which as she was in year 10 was a major gap. We had to fight for home tuition which was initially refused ... wasn't at a suitable level and basically comprised 'art' i.e. colouring in. When she was well enough to return to school, we had a battle to arrange a gradual return to ease her re-engagement. We felt her school was inflexible ... Arrangements for catch up were woeful ...

The school and local authority took a punitive approach and we received no support as parents ...

*We are articulate parents who were able to advocate for our daughter and use our knowledge of the system (and our income) to try to achieve a good outcome for her. I was shocked to experience the negative and punitive approach of her school and local authority, and the absence of adequate support for her learning and eventual return to school. I dread to think what the experience of less well resourced parents and learners is, whatever the cause of their absence."*³⁰⁴

241. Dywedodd eraill wrthym nad oedd ysgolion wedi ymgysylltu pan oeddent wedi codi pryderon neu broblemau. Dywedodd rhai nad oeddent yn gwybod sut i fynd at eu hawdurdod lleol neu, pan oeddent wedi cysylltu â'r awdurdod lleol, na chawsant ymateb pan oedd pethau wedi gwaethygu yn yr ysgol. Dywedodd un cyfranogwr fod ei chysylltiad â'r awdurdod lleol yn "drychinebus", gan ddweud wrthym ei bod yn teimlo ei fod yn diystyru popeth a ddywedodd, ac nad oedd yn wybodus am ieuchyd meddwl na niwrowahaniaeth. Dywedodd eu bod yn:

*"siarad drosof a'm trin fel fy mod i'n idiot llwyr ... doedden nhw ddim yn clywed unrhyw beth roeddwn i'n ei ddweud am y plant."*³⁰⁵

242. Clywsom hefyd am deuluoedd a gafodd brofiadau mwy cadarnhaol o gymorth gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn ystod ein sesiynau ymgysylltu â rhieni, clywsom un yn sôn am ysgol ei merch yn rhoi amserlen lai ar waith; atgyfeiriadau i raglenni llesiant ac awgrymiadau

³⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA47, Unigolyn

³⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldeb disgyblion – Canfyddiadau gwaith ymgysylltu, Mehefin 2022

eraill, gan gynnwys gweithio gydag ysgol gynradd ei merch os bydd yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynd i leoliad llai, mwy cyfarwydd.³⁰⁶

243. Clywsom fod materion o ran cael atgyfeiriadau amserol, yn benodol ar gyfer asesiadau. Mae oedi cyn cael asesiadau wedyn yn cyfrannu i absenoldebau hir o ysgolion. Clywsom fod effaith rhestrau aros am gymorth CAHMS yn cyfrannu ymhellach i absenoldeb hir disgyblion. Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn mynd yn rhwystredig gyda'r oedi cyn cael asesiad a chymorth wedi hynny. Mae hwn yn fater yn enwedig i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.³⁰⁷ Rydym wedi trafod y mater hwn yn fanylach ym Mhennod 4.

244. Roedd pryderon hefyd am ansawdd y cyfathrebu rhwng ysgolion/awdurdodau lleol a theuluoedd. Dywedodd Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fod angen i gyfathrebu fod yn broses ddwyffordd, gan bwysleisio y gallai rhai teuluoedd gael rhwystrau i gyfathrebu a allai fod oherwydd eu profiadau eu hunain o ysgolion, lefelau llythrennedd isel, neu wahaniaethau diwylliannol.³⁰⁸

245. Roedd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol rhwng teuluoedd ac ysgolion i helpu i leihau'r tebygolrwydd o absenoldeb. Dywedodd fod llinellau cyfathrebu agored, cadarnhaol yn hanfodol, ond ei bod yn rhy aml yn clywed gan rieni sy'n cael eu heithrio o'r broses.³⁰⁹ Pwysleisiodd Parentkind hefyd bwysigrwydd cyfathrebu dwyffordd.³¹⁰

246. Clywsom fod llawer o amrywiaeth yn y gefnogaeth y mae ysgolion yn ei ddarparu ar draws Cymru. Dywedodd Lleisiau Rhieni yng Nghymru ei fod wedi cael cryn amrywiaeth yn yr adborth ar y cymorth a'r arweiniad a gynigir. Dywedodd y gall hyn hyd yn oed amrywio mewn un ysgol, ac y gall hyn fod o ganlyniad i'r canlynol:

"depending on their relationship with the school, different approach of staff and level of understanding on mental health and neurodivergent conditions. Where schools have an ALNCO with extensive knowledge and a compassionate senior leadership team, outcomes are improved for the family and learner. Where families have reported relationships breaking down due to discrepancies in opinion/inflexibility of approach or understanding of learner needs (being policy centred approaches or lack of interpersonal skills

³⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldeb disgyblion – Canfyddiadau gwaith ymgysylltu, Mehefin 2022

³⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldeb disgyblion – Canfyddiadau gwaith ymgysylltu, Mehefin 2022

³⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA43, Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid, Pennaeth Gwasanaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

³⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA50, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

³¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA61, Parentkind

of parent and staff) the learner ultimately faces the consequences of non inclusive, non child centred process. Some families reported that despite their contacting the schools there was little or no response, whilst other families received tremendous support. It was apparent that some schools were unable to signpost families appropriately for support (defaulting to primary care only) and were unaware of the benefits of third sector provision."³¹¹

247. Dywedodd un ymatebwr fod gan ysgolion a oedd fwyaf effeithiol ddull sy'n canolbwyntio ar blant, a'u bod yn canolbwyntio'n llai ar ffigurau presenoldeb. Galwodd i ysgolion gael eu rhyddhau o bwysau o ran presenoldeb er mwyn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar blant.³¹² Galwodd un arall i ysgolion fod yn feithringar.³¹³ Dywedodd Barnardo's Cymru hefyd fod diffyg dull sy'n ystyriol o drawma neu ddull sy'n canolbwyntio ar blant.³¹⁴

248. Cawsom ein hatgoffa gan rai rhanddeiliaid y gall fod yn heriol i rai teuluoedd ymgysylltu ag addysg. Yn ôl Rhwyd Arall, yn erbyn cefndir yr heriau a amlinellwyd ym Mhennod 4, gall y rhain gael eu cymhlethu ymhellach gan genedlaethau olynol o deuluoedd y mae'r system addysg wedi'u methu, felly mae'n anodd iddynt gefnogi eu plant i fynd i'r ysgol.³¹⁵ Dywedodd uwch-arweinydd mewn ysgol gynradd hefyd y gall cylch ddatblygu rhwng y cenhedlaethau, pan fo plant nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd wedyn yn oedolion nad ydynt yn gwerthfawrogi addysg ac mae'r cylch yn parhau.³¹⁶ Gwnaeth athro ysgol arall a ymatebodd ddweud ei bod yn bwysig datblygu diwylliant sy'n gwerthfawrogi addysg fel bod rhieni'n deall yr angen ac yn ei werthfawrogi.³¹⁷

249. Soniodd Rhwyd Arall am heriau sefydliadau dosbarth canol yn ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd dosbarth gweithiol. Dywedodd nad yw bob amser yn berthynas gyfartal, gan nad yw athrawon a swyddogion yn yn cael eu gweld fel "pobl fel ni". Galwodd am ffyrdd gwell o bontio'r bwlch hwn.³¹⁸

250. Dywedodd Barnardo's Cymru fod teuluoedd wedi dweud wrthi fod gweithio gyda darparwr trydydd sector yn gyswllt allweddol rhwng y teulu, yr ysgol a gwasanaethau eraill yn ymyriad ystyrlon. Dywedodd y gall gweithiwr allweddol o'r fath chwalu rhwystrau i gyfathrebu rhwng rhieni/gofalwyr ac ysgolion a sicrhau nad oes seilos.³¹⁹ Dywedodd Ymarferydd Adfer ACEs

³¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA64, Lleisiau Rhieni yng Nghymru

³¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA25, Unigolyn

³¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA22, Unigolyn

³¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA33, Barnardo's Cymru

³¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA19, Unigolyn

³¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA7, Uwch-arweinydd, Ysgol Gynradd

³¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA41, Athro Ysgol

³¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA19, Unigolyn

³¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA33, Barnardo's Cymru

hefyd fod y prosiect roedd yn gweithio arno wedi cael ymatebion cadarnhaol iawn gan y teuluoedd y mae wedi'u cefnogi, a bod angen i'r Llywodraeth werthfawrogi gwaith elusennau fel y gallant barhau i gyrraedd plant a phobl ifanc o'r fath.³²⁰

251. Pwysleisiodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru bwysigrwydd gwaith partneriaeth rhwng ysgolion, rhieni, y gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r Llywodraeth. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*"There isn't, as I say, one fix with one body that can actually accommodate all of the complexity around re-establishing those routines and patterns. It's going to take a real, concerted, combined partnership effort to make sure that we're getting these kids back into school again."*³²¹

252. Fel rydym wedi sôn yn y bennod flaenorol, a'r adran sy'n edrych ar gyllid a chapasiti, bu cynnydd yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau lles addysg. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ganddi rôl bwysig yn cefnogi presenoldeb disgyblion (gweler paragraff 216).

253. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod gan rieni / gofalwyr rôl bwysig:

*"Rhieni yw athro cyntaf plentyn, a byddant yn parhau i fod yn rhan o'i daith dysgu hyd nes y bydd yn oedolyn. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cynnwys pob rhiant/gofalwr, yn arbennig y rheini o gefndiroedd mwy difreintiedig, yn nysgu eu plant er mwyn iddynt allu deall yn well yr hyn y gofynnir i'w plant ei wneud a meithrin y sgiliau i'w cefnogi. Felly, byddwn yn cyfathrebu mwy â rheini a gofalwyr, gan fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt o hyd a phwysleisio pwysigrwydd mynychu'r ysgol."*³²²

254. Pan wnaethom godi materion yn ymwneud â diffyg cysondeb ar draws Cymru gyda'r Gweinidog, dywedodd nad yw gwahaniaeth bob amser yn beth drwg oherwydd ei fod yn galluogi ymateb wedi'i deilwra yn ôl amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, derbyniodd yr angen am gysondeb dull gweithredu mewn polisi. Nododd y cyllid ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ynghylch pa ysgolion sydd â'r angen mwyaf. Ar y cyd â hyn yw pwysigrwydd sicrhau canllawiau cyson ar draws Cymru. Nododd yr adolygiadau presennol o'r fframwaith presenoldeb, canllawiau gwaharddiadau a fydd yn gosod disgwyliadau sy'n gyson. Cydnabu fod anghysondeb ar hyn o bryd, ond y bydd hyn yn gyfle i sicrhau bod set glir o ddisgwyliadau a chanllawiau a chymorth yn sail iddo. Roedd hefyd o'r farn

³²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA49, Ymarferydd Adfer ACEs

³²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

³²² Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

y bydd cyffredinolli arfer gorau'n rhan hanfodol o'r jig-so, a bod cyfle sylweddol ar hyn o bryd i wneud hyn. Dywedodd y canlynol:

*"The role we can have as a Government is to say, 'We have seen evidence of where this works well and this is how you can do that,' and to provide those resources both as professional learning resources and other resources, so schools can draw on that. We've got a professional learning entitlement for all teachers and teaching assistants that is being launched for the next academic term, and I think there'll be an opportunity in that to provide additional support for the profession in relation to some of these questions as well."*³²³

Rôl ysgolion bro

255. Mewn adroddiad thematig yn 2020, mae Estyn yn esbonio y bu'r cysyniad o ysgolion cymunedol "yn rhan o bolisi addysg Cymru ers blynyddoedd cynnar datganoli". Mae'n datgan bod ysgolion cymunedol "wedi'u gwreiddio mewn cyd-destun cymunedol eang" a'u bod yn "rhan annatod o adeiladu gallu cymunedol – gan ddarparu sylfaen ar gyfer cyflwyno nid yn unig addysg a hyfforddiant, ond hefyd ystod o wasanaethau eraill fel cynhaliaeth deuluol a hybu iechyd a menter".³²⁴

256. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r cysyniad a'r term 'ysgol fro' ers blynyddoedd lawer, sy'n dyddio'n ôl i ganllawiau a gyhoeddodd yn 2003. Mae adrannau 27 ac 28 o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi pwerau i gyrff llywodraethu ddarparu gwasanaethau i helpu i ddiwallu anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Gwnaeth Gweinidog y Gymraeg a Addysg bwysleisio, ym mis Mawrth 2022, fod Llywodraeth Cymru am i ysgolion weithredu fel ysgolion bro, yn estyn allan at rieni a gofawyr ac yn ymgysylltu â'r gymuned gyfan, gan gyhoeddi cyllid ar gyfer rheolwyr a swyddogion cyswllt â theuluoedd mewn ysgolion bro.³²⁵

257. Clywsom y gallai ysgolion bro fod yn arf defnyddiol o ran lleihau lefelau absenoldeb disgyblion a chefnogi gwaith ymgysylltu ehangach â theuluoedd a'r gymuned ehangach. Dywedodd Plant yng Nghymru fod cydnabyddiaeth gynyddol bellach o fanteision ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach, drwy ddefnyddio dulliau ar sail asedau. Croesawodd y buddsoddiad mewn ysgolion bro. Galwodd am osgoi golwg tymor byr ac i'r dulliau sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol gael eu cynnal, ac i wersi gael eu rhannu ar draws y gymuned ysgol.³²⁶

³²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 108.

³²⁴ Estyn, 'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol', Gorffennaf 2020

³²⁵ Y Cyfarfod Llawn, 22 Mawrth 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 148-159

³²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA53, Plant yng Nghymru

Galwodd y Comisiynydd Plant i leisiau a dymuniadau plant a phobl ifanc, ochr yn ochr â barn teuluoedd a rhanddeiliaid cymunedol ehangach, fod wrth wraidd datblygu'r model hwn o'r ysgol.³²⁷

258. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod y "sylfaen gadarn o ymchwil" ar gyfer ysgolion cymunedol "yn awgrymu bod potensial yma i wneud gwahaniaeth gwirioneddol", yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Yn unol â sylwadau Plant yng Nghymru dywedodd y canlynol:

*"Nid datrysiad cyflym yw'r dull gweithredu hwn, a bydd yn galw am ymrwymiad cadarn yn genedlaethol ac ar draws y proffesiwn, a dull gweithredu seiliedig ar asedau yng nghyswllt cyfranogiad ystyrlon y gymuned, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae datblygu dull ysgol gymunedol yn cymryd cryn dipyn o amser, ac os ydyw i lwyddo, mae angen iddo gael ei arwain gan ysgolion a chymunedau eu hunain."*³²⁸

Ond cydnabu hefyd ei bod yn ymddangos yn fwy effeithiol mewn ysgolion cynradd nag uwchradd. Dywedodd y gallai pellter fod â rôl yn lefel effeithiolrwydd model cymunedol.³²⁹

259. Dywedodd NASUWT Cymru y gall ysgolion cymunedol, os cânt eu rheoli'n dda, ddarparu cwmpas i gyflwyno'r cymorth amlddisgyblaethol angenrheidiol i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n rhybuddio y bydd y dull hwn yn gofyn adnoddau ychwanegol sylweddol ac y bydd angen i newid mor sylweddol yn y ffordd y defnyddir mangre ysgol gael ei reoli'n strategol drwy ddychwelyd rheolaeth ysgolion i awdurdodau lleol.³³⁰ Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae ysgolion cymunedol yn ei olygu, gan ddweud os caiff ei adael i ysgolion unigol, y gall arwain at anghysondeb sylweddol rhwng ysgolion gyda'r plant ar eu colled.³³¹ Cydnabu'r Comisiynydd Plant hefyd y bydd angen gwaith dwys a chynllunio tymor hir ar y polisi hwn er mwyn gwireddu'r weledigaeth.³³²

260. Dywedodd y NEU fod ysgolion bro yn wych mewn egwyddor, ond anogodd rywfaint o bwyll, yn enwedig o ran yr hyn y gellir defnyddio'r adeilad ar ei gyfer. Fel enghraifft nododd y posibilrwydd o gael banc bwyd mewn ysgol a dywedodd nad oedd o reidrwydd yn beth da gan y gallai hyn ychwanegu ymdeimlad o gywilydd ac annog pobl ifanc i beidio â mynd i'r ysgol. Pwysleisiodd hefyd y byddai angen rhoi rhagor o sylw i faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu.³³³

³²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 162

³²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA56, Comisiynydd Plant Cymru

³²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 160-161

³³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA59, NASUWT Cymru

³³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 149

³³² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 161

³³³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 147

261. Dywedodd Estyn fod peidio â gwireddu'r weledigaeth mewn modd cynhwysfawr neu barhaus yn un o'r rhwystrau mwyaf. Mae hyn wedi arwain at ddehongli'r cysyniad mewn amrywiaeth o ffyrdd.³³⁴

262. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod am i'r holl ysgolion yng Nghymru fod yn ysgolion bro, a'i bod yn darparu £660,000 ar gyfer cynllun peilot o swyddi rheolwyr Ysgol Bro.³³⁵ Bydd y treial hwn yn edrych pa gapasiti ychwanegol fydd o gymorth.³³⁶

263. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd am y cyllid cyfalaf sydd ar gael i ysgolion wneud eu cyfleusterau'n fwy hygyrch i'r gymuned. Mae £20 miliwn o gyllid ar gael. Dywedodd fod ystod o ffyrdd y gallai ysgolion fod yn gweithio tuag at fod yn ysgolion bro. Mae fframwaith yn cael ei ddatblygu i helpu ysgolion i fod yn ysgolion bro. Fodd bynnag, cydnabu y bydd angen ymdrech ar y cyd ar draws y system ond y byddai'n werth gwneud hynny:

*"I absolutely think it's worth it, because just as we were talking earlier about the relationship between the school and those who make the choice to educate at home, I think there's a way in which we can make that relationship stronger to encourage parents to look at schools in a different way. Some of that is about facilities, some of it is about services, some of it is about an approach to family engagement, and there's a lot of good practice happening in different parts of Wales. Some of it is a capital challenge, some of it is operational, and we want to make sure that all schools are on that journey in Wales."*³³⁷

Ein barn ni

264. Fel rydym wedi nodi drwy gydol yr adroddiad, rydym yn credu bod cyfle ar gyfer mwy o rannu arfer da o ran yr hyn sy'n gweithio'n leol a lledaenu hyn ar draws Cymru. Rydym yn credu bod hyn yn arbennig o berthnasol wrth edrych ar gymorth i deuluoedd, yn enwedig gan fod rhai o'r prosiectau mwyaf effeithiol â ffocws lleol iawn.

265. O ran ysgolion bro, nodwn y gall fod heriau ychwanegol o ran ymgorffori'r polisi hwn mewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion â nodweddion crefyddol ('ysgolion ffydd'). Y rheswm dros hyn yw'r pellteroedd daearyddol ychwanegol sydd yn aml rhwng yr ysgolion hyn a'u disgyblion.

³³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 232

³³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

³³⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 111

³³⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 111

Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei ystyried yn fanylach wrth i'r polisïau ysgol fro gael eu datblygu.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a sefydliad
16 Mehefin 2022	Swyddogion Lles Addysg o bob rhan o Gymru a chynrychiolwyr o grŵp y Prif Swyddogion Ieuencid Laura Doel, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru Eithne Hughes, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru Jane Houston, Policy Adviser, Comisiynydd Plant Cymru
23 Mehefin 2022	Mary van den Heuvel, Uwch-swyddog Polisi, Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Hannah O'Neill, Ysgrifennydd Rhanbarth Ysgrifennydd Rhanbarth dros Flaenau Gwent ac aelod dros Gymru o weithrediaeth yr Undeb Addysg Cenedlaethol Llinos Jones, Pennaeth Ysgol Bro Myrddin, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) Menai Jones, Swyddog Polisi a Gwaith Achos, NASUWT Catherine Evans, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn Liz Miles, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn Mark Champion, Arolygydd EM, Estyn Yr Athro Ann John, Athro, Gwyddor Data Iechyd, Prifysgol Abertawe

Dyddiad	Enw a sefydliad
29 Mehefin 2022	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Llywodraeth Cymru Sian Jones, Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
PA 01	Annilys
PA 02	Annilys
PA 03	Annilys
PA 04	Unigolyn
PA 05	Pennaeth, Ysgol Uwchradd
PA 06	Cyngor Sir Penfro
PA 07	Uwch-arweinydd, Ysgol Gynradd
PA 08	Gwasanaethau Addysg Conwy
PA 09	Annilys
PA 10	Pennaeth Ysgol
PA 11	Pennaeth Ysgol Gynradd
PA 12	Unigolyn
PA 13	Unigolyn
PA 14	Annilys
PA 15	Unigolyn
PA 16	Unigolyn
PA 17	Unigolyn
PA 18	Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau – ASCL Cymru
PA 19	Unigolyn

Cyfeirnod	Sefydliad
PA 20	Unigolyn
PA 21	Unigolyn
PA 22	Unigolyn
PA 23	Unigolyn
PA 24	Ysgol Gynradd
PA 25	Unigolyn
PA 26	Unigolyn
PA 27	Unigolyn
PA 28	Unigolyn
PA 29	Unigolyn
PA 30	Unigolyn
PA 31	Unigolyn
PA 32	Unigolyn
PA 33	Barnardo's Cymru
PA 34	Unigolyn
PA 35	Unigolyn
PA 36	Unigolyn
PA 37	Unigolyn
PA 38	Unigolyn
PA 39	Prifysgol Caerdydd
PA 40	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
PA 41	Athro Ysgol
PA 42	Unigolyn
PA 43	Rheolwyr Timau Troseddu leuenctid, Pennaeth y Gwasanaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
PA 44	Cymdeithas Addysg Sosialaidd Cymru

Cyfeirnod	Sefydliad
PA 45	Cyngor Dinas Casnewydd
PA 46	Sefydliad Bevan
PA 47	Unigolyn
PA 48	Ffydd mewn Teuluoedd
PA 49	Ymarferydd Adfer yn sgil Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)
PA 50	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
PA 51	Unigolyn
PA 52	Pediatregydd, Ysbyty Athrofaol Cymru
PA 53	Plant yng Nghymru
PA 54	Cymwysterau yng Nghymru
PA 55	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
PA 56	Comisiynydd Plant Cymru
PA 57	NSPCC
PA 58	Estyn
PA 59	NASUWT
PA 60	Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)
PA 61	Parentkind
PA 62	Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
PA 63	Cyngor Bro Morgannwg
PA 64	Parents Voices in Wales
PA 65	Llywodraeth Cymru
PA 66	Cyngor Sir Gaerfyrddin

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad derbyn
Comisiynydd Plant Cymru	27 Mehefin 2022
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru	6 Gorffennaf 2022
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru	4 Gorffennaf 2022
Estyn	11 Gorffennaf 2022